------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3**

**Senedd a fideogynadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 27 Tachwedd 2024

Amser: 09.30


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddHinsawdd@senedd.cymru


# Hybrid

**Cyfarfod preifat** (09.15-09.30)

**Cyfarfod cyhoeddus** (09.30-11.00)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Craffu cyffredinol ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth

(09.30-11.00) (Tudalennau 1 - 29)

Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth

Peter McDonald, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth a Digidol - Llywodraeth Cymru

Steven McGregor, Dirprwy Gyfarwyddwr Gogledd Cymru - Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff ymchwil - Craffu ar Drafnidiaeth

Papur - Llywodraeth Cymru

## 3 Papurau i'w nodi (11.00)

### 3.1 Deiseb P-06-1439 Gwella seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus hanfodol hwyr y nos yn Ne a De-orllewin Cymru

(Tudalen 30)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau at y Cadeirydd mewn cysylltiad â seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus hwyr y nos yn Ne a De Orllewin Cymru

### 3.2 Craffu ar Drafnidiaeth

(Tudalennau 31 - 42)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru mewn cysylltiad â thrafnidiaeth.

Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru at y Cadeirydd mewn cysylltiad â thrafnidiaeth.

### 3.3 Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol i Gymru

(Tudalen 43)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb gan y Cadeirydd at Joel James AS mewn cysylltiad â’r Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol i Gymru

### 3.4 Y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

(Tudalennau 44 - 47)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas â’r Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad mewn cysylltiad â’r Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ’r Cyffredin at y Cadeirydd mewn cysylltiad ag ymgysylltu o ran meysydd polisi cyffredin (Saesneg yn unig)

Ymateb gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin mewn cysylltiad ag ymgysylltu o ran meysydd polisi cyffredin

**3.5 Mesurau Llywodraethu Amgylcheddol Interim yng Nghymru**

(Tudalennau 48 - 55)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb gan Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru at y Cadeirydd mewn cysylltiad ag adroddiad y Pwyllgor: Adroddiad ar weithredu mesurau interim diogelu'r amgylchedd 2023-24 (Saesneg yn unig)

Ymateb gan y Dirprwy Brif Weinidog, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Cadeirydd mewn cysylltiad ag adroddiad y Pwyllgor: Adroddiad ar weithredu mesurau interim diogelu'r amgylchedd 2023-24

**3.6 Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU**

(Tudalennau 56 - 57)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Cadeirydd mewn cysylltiad â Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2024

**3.7 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)**

(Tudalennau 58 - 59)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn cysylltiad â'r Bil Dŵr (Mesurau Arbennig).

**3.8 Deiseb P-06-1474 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas; a Deiseb P-06-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas**

(Tudalennau 60 - 63)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr dilynol gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn cysylltiad â Deiseb P-06-1474 a Deiseb P-06-1447

Llythyr dilynol gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau at Brif Swyddog Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru mewn cysylltiad â Deiseb P-06-1474 a Deiseb P-06-1447

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn (11.00)

## Cyfarfod preifat (11.00-11.30)

## 5 Trafod y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 2

## 6 Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)

(Tudalennau 64 - 69)

**Dogfennau atodol:**

Nodyn cyfreithiol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) (Saesneg yn unig)

## 7 Y Bil Mwyngloddiau a Thomenni Chwareli nas Defnyddir (Cymru) - Ystyried dull craffu Cyfnod 1

(Tudalennau 70 - 79)

**Dogfennau atodol:**

Papur - Dull craffu ar Fil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Papur tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru ar gyfer Craffu Cyffredinol ym Mhwyllgor NHAS

06/11/2024

Gwybodaeth i helpu'r Pwyllgor cyn i Ysgrifennydd y Cabinet ymddangos ger ei fron at ddibenion Craffu Cyffredinol ar 27 Tachwedd 2024.

# Cynnwys


1. **Rheilffyrdd** .......... **3**
   - Gwrthdrawiad rhwng dau drên ar Lein y Cambrian .......... 3
   - Perfformiad y Rheilffyrdd .......... 3
   - Bil Diwygio'r Rheilffyrdd a Gwasanaethau i Deithwyr .......... 4
   - Bwrdd Rheilffyrdd Cymru .......... 4
   - Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd .......... 5
   - Rhaglen Gwella Caerdydd Canolog .......... 6
2. **Teithio llesol** .......... **6**
   - Blaenoriaethau newydd ar gyfer cerdded, olwyno a beicio .......... 6
   - Teithio llesol i'r ysgol .......... 6
   - Cynllun Cyflawni Teithio Llesol .......... 7
   - Cyllid ar gyfer teithio llesol a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau .......... 7
   - Adroddiad Archwilio Cymru ar deithio llesol .......... 7
   - Bwrdd Teithio Llesol .......... 8
3. **Polisi Ffyrdd** .......... **8**
4. **20mya** .......... **9**
5. **Bws** .......... **9**
   - Diwygio gwasanaethau bysiau .......... 9
   - Cymorth Ariannu Bysiau .......... 10
   - TrawsCymru .......... 11

# 1. Rheilffyrdd

## Gwrthdrawiad rhwng dau drên ar Lein y Cambrian

1. Ddydd Llun, 21 Hydref ger Llanbrynmair ym Mhowys, bu gwrthdrawiad rhwng dau o drenau Trafnidiaeth Cymru. Roedd y ddau'n teithio'n araf. Roedd 41 o deithwyr a 4 aelod o griw ar y ddau drên. Yn anffodus, bu un o'r teithwyr farw yn dilyn y gwrthdrawiad. Cafodd y gwasanaethau brys eu galw a chafodd 15 o bobl driniaeth am anafiadau mewn ysbytai cyfagos.

2. Ar ôl cynnal archwiliadau diogelwch manwl, ail-agorodd Network Rail y lein ddydd Llun 28 Hydref ac ailddechreuodd TrC ei wasanaethau yr un diwrnod.

3. Y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau Rheilffordd (RAIB) sy'n arwain yr ymchwiliad. Ni fydd unrhyw sylw pellach yn cael ei wneud nes y bydd yr ymchwiliad wedi'i gynnal a'i ganfyddiadau wedi'u hystyried..

## Perfformiad y Rheilffyrdd

4. Mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) wedi gweld gwelliant parhaus yn ei berfformiad eleni ac, ar gyfartaledd hyd yma yn 2024, TrC yw'r gweithredwr mwyaf dibynadwy a phrydlon yng Nghymru.

5. Yn chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol hon, TrC ddangosodd y gwelliant mwyaf o ran prydlondeb a dibynadwyedd o holl weithredwyr rheilffyrdd Prydain Fawr o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. TrC gofnododd hefyd y cynnydd mwyaf yn nifer y teithwyr. Nodwyd nifer o resymau am y cynnydd hwn, gan gynnwys cyflwyno trenau newydd a gwasanaethau ychwanegol a newydd sbon a gwella perfformiad.

6. Mae lefelau boddhad ymhlith teithwyr TrC yn parhau i wella, gan sgorio 88% yn arolwg diweddaraf Transport Focus. Mae hyn yn welliant o 16% dros y 12 mis diwethaf.

7. Mae TrC yn bwrw ymlaen â chyflwyno'i fflyd newydd o drenau, gyda llawer o'r trenau hyn bellach yn rhedeg yn rheolaidd ledled Cymru. Bydd trenau 3-modd Dosbarth Stadler 756 yn cael eu cyflwyno ar Linellau Craidd y Cymoedd (CVL) cyn diwedd y flwyddyn, y trenau trydan cyntaf erioed i redeg yn rheolaidd i deithwyr ar y CVL. Wedi cyflwyno'r fflyd newydd, bydd gan TrC lawer mwy o gerbydau nag a etifeddodd yn 2018. Bydd y trenau hyn yn cynnig mwy o le, hygyrchedd a chysur i deithwyr.

8. Ym mis Rhagfyr, yn dilyn cynnal adolygiad o'r galw am wasanaethau ymhlith teithwyr ac o'u patrymau teithio, bydd TrC yn gwneud newidiadau i'r amserlen. Er y bydd yn golygu torri rhai gwasanaethau, mae TrC yn blaenoriaethu ac yn cynyddu capasiti lle bydd ei angen fwyaf. Mae TrC wedi

cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y newidiadau, gan wrando ar yr adborth a newid ei gynigion lle roedd hynny'n briodol.

9. Mae TrC yn gweithio i gynyddu refeniw tocynnau a lleihau'r angen am gymhorthdal blynyddol trwy redeg mwy o drenau ar draws y rhwydwaith, gwella perfformiad a chyflwyno cynigion fel Talu Wrth Fynd a gostwng prisiau tocynnau Advance ar gyfer teithiau hirach.

10. Dros yr haf, cludodd TrC gannoedd o filoedd o deithwyr yn ddiogel i ac o ddigwyddiadau mawr, gan gynnwys cyngerdd Taylor Swift yn Stadiwm Principality Caerdydd a'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd. Yn fwy diweddar, cydweithiodd TrC â rhanddeiliaid i gefnogi digwyddiadau mawr drwy ohirio gwaith peirianyddol ar reilffordd Coryton er mwyn sicrhau bod trenau'n rhedeg i gludo teithwyr i gêm bêl-droed ryngwladol Cymru yn erbyn Montenegro a darparu gwasanaethau boreol o rai gorsafoedd i Gaerdydd cyn dechrau Hanner Marathon Caerdydd. Mae TrC wedi datblygu cynlluniau penodol ar gyfer y gemau rygbi rhyngwladol yng Nghaerdydd yr hydref hwn.

## Bil Diwygio'r Rheilffyrdd a Gwasanaethau i Deithwyr

11. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bwriad i gyflwyno Mesur Diwygio'r Rheilffyrdd y flwyddyn nesaf. Bydd yn gyfle pwysig i gydweithio â Llywodraeth y DU i wella rheilffyrdd Cymru, gan gynnwys cryfhau Uned Fusnes Cymru a'r Gororau o fewn Great British Railays i wireddu blaenoriaethau Cymru ac i fod yn atebol i weinidogion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru am fod â rhan yn y penderfyniadau ynghylch y gwasanaethau sy'n rhedeg i ac o Gymru, hynny am eu bod mor bwysig i economi a chysylltedd Cymru. Mae'r manylion wrthi'n cael eu datblygu, ond mae Llywodraeth y DU eisoes wedi ymrwymo i roi rôl statudol i Weinidogion Cymru o ran rheoli, cynllunio a datblygu'r diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru.

12. Bydd Bil Gwasanaethau'r Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus) a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yr haf hwn yn golygu trosglwyddo gwasanaethau rheilffyrdd i'r sector cyhoeddus, diddymu'r pwerau masnachfreintio a gwireddu un o ddymuniadau pennaf Lywodraeth Cymru trwy ddiwygio'r rheilffyrdd. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cam hwn, a bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei drafod yn y Senedd ar 5 Tachwedd.

## Bwrdd Rheilffyrdd Cymru

13. Bwrdd ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yw Bwrdd Rheilffyrdd Cymru ac mae gan Trafnidiaeth Cymru a Network Rail aelodau arno. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio i gytuno â Llywodraeth y DU ar restr o flaenoriaethau ar gyfer seilwaith y rheilffyrdd. Bydd angen sêl bendith Bwrdd Rheilffyrdd Cymru. Mae'r cynlluniau gwella hyn yn ychwanegol at y gwaith a'r buddsoddiad sydd eu hangen i gynnal ac

adnewyddu'r rhwydwaith rheilffyrdd presennol a'i asedau. Y bwriad yw cynnal un set o welliannau i seilwaith y rheilffyrdd yng Nghymru er mwyn gallu targedu'r cyllid datblygu ar yr hyn y mae'r holl randdeiliaid yn cytuno ddylai gael blaenoriaeth. Rwyf wedi cwrdd â'r Arglwydd Hendy, Gweinidog Rheilffyrdd Llywodraeth y DU ac, yn fwy diweddar, â Louise Haigh, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth i ddatblygu'r drafodaeth bwysig hon a chael y ddwy lywodraeth i gytuno ar flaenoriaethau.

## Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd

14. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi dros £1bn yn rhaglen trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL). Bydd yn gwella'r llinellau i Dreherbert, Aberdâr, Merthyr Tudful, Rhymni a Coryton, a bydd yn cynnwys gosod Llinellau Trydan Uwchben (OLE) er mwyn i drenau trydan newydd sbon allu cymryd lle'r fflyd diesel a etifeddwyd.

15. Mae'r gwaith mawr ar y rhaglen uchelgeisiol hon wedi tarfu ar fywydau'r bobl sy'n byw ar hyd y lein. Gwaetha'r modd, roedd hynny'n anorfod er mwyn gallu gwneud y gwelliannau hanfodol a gwireddu ein gweledigaeth o rwydwaith o ansawdd uchel fydd yn diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Rydym eisoes yn dechrau gweld manteision y gwelliannau, gyda chyflwyno amserlen newydd y CVL ym mis Mehefin 2024 gyda gwasanaethau amlach a hwyrach i deithwyr.

16. Y bwriad oedd cwblhau'r gwaith o drawsnewid y CVL erbyn diwedd 2023. Fodd bynnag, mae'r dyddiad hwn wedi'i ohirio oherwydd effaith Covid, ac mae effaith hwnnw a'r lefelau uchel o chwyddiant wedi cynyddu cost y gwaith.

17. Hyd yn hyn, mae TrC wedi llwyddo i drydaneiddio'r lein o Gaerdydd i Dreherbert, Aberdâr a Merthyr. Mae gorsafoedd ledled y CVL yn cael eu hadnewyddu i sicrhau eu bod yn gallu derbyn y trenau newydd ac i ddarparu lle medrir, cysylltiad gwastad rhwng y trên a'r platfform. Mae cyfleusterau 'Mynediad i Bawb' yn cael eu gosod mewn gorsafoedd allweddol ar draws y CVL ac, ar ôl cwblhau'r rhaglen drawsnewid, bydd y rhan fwyaf o rwydwaith y CVL yn ddi-step.

18. Mae prosiectau seilwaith pwysig eraill yn yr arfaeth gan gynnwys gwella'r trac a'r signalau yn Heol y Frenhines Caerdydd ac ar lein Rhymni. Rhagwelir ar hyn o bryd y daw'r rhaglen i ben yn 2027 ac ar ôl ei chwblhau, bydd yn darparu gwasanaeth metro troi-i-fyny-a-mynd gyda 4 trên yr awr i flaenau'r cymoedd yn Nhreherbert, Aberdâr a Merthyr a 12 trên yr awr o Bontypridd i Gaerdydd. Daw hyn â manteision cynyddol, gan gynnwys cyflwyno trenau trydan newydd sbon ar y CVL cyn diwedd y flwyddyn.

## Rhaglen Gwella Caerdydd Canolog

**19.** Bydd Rhaglen Gwella Caerdydd Canolog (CCEP) yn gwneud Gorsaf Ganolog Caerdydd yn fwy diogel ac effeithiol trwy gynyddu capasiti platfformau, gwella'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu rhedeg a gwella'r llif cerddwyr o amgylch yr orsaf gan sicrhau yr un pryd yr elw masnachol mwyaf a chynyddu gwerth economaidd y tir o'i chwmpas.

**20.** Llywodraeth Cymru yw cleient y cynllun ac yn bartner ariannu posib gyda'r Adran Drafnidiaeth (DfT) a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Trafnidiaeth Cymru sy'n arwain y cynllun. Mae'r gwaith tirfesur wedi dechrau ar y safle, a'r bwriad yw dechrau'r gwaith adeiladu yn haf 2025. Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith tarfu wedi'i wneud erbyn haf 2028 mewn pryd ar gyfer Pencampwriaethau Pêl-droed Ewrop - Caerdydd yw un o'r dinasoedd sy'n eu cynnal.

**21.** Mae'r prosiect hwn yn gyfle i weithio ar y cyd â phartneriaid i ddenu arian sylweddol i Gymru a gwella gorsaf brysuraf Cymru a hyb pwysig ar rwydwaith Metro De Cymru sy'n allweddol i wasanaethau ar draws y brifddinas-ranbarth a thu hwnt.

# 2. Teithio llesol

## Blaenoriaethau newydd ar gyfer cerdded, olwyno a beicio

**22.** Gan adeiladu ar bedair blaenoriaeth y Cabinet, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru wedi nodi ei flaenoriaethau ar gyfer teithio llesol a chreu amgylcheddau sy'n annog cerdded, olwyno a beicio ar gyfer teithiau bob dydd. Y blaenoriaethau hyn yw:

- Sicrhau mynediad diogel a chynhwysol at drafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig i'r rhai heb geir.
- Hyrwyddo cerdded, olwyno a beicio ymhlith pobl ifanc, gan gefnogi mynediad iach at addysg..
- Gwneud y mwyaf o'r terfynau cyflymder mwy diogel, i leihau'r angen am seilwaith newydd drud.

**23.** Yn sail i'r blaenoriaethau hyn bydd hierarchaeth o ddefnyddwyr sy'n seiliedig ar gyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant, gyda'r cerddwyr a'r olwynwyr mwyaf bregus ar y brig. Bydd penderfyniadau buddsoddi yn defnyddio'r hierarchaeth hon. Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu y bydd seilwaith ar gyfer cerdded ac olwyno yn cael blaenoriaeth.

## Teithio llesol i'r ysgol

**24.** Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i annog mwy o blant a phobl ifanc i gerdded, olwyno a beicio i'r ysgol. Mae'r ymdrechion hyn yn cynnwys creu llwybrau diogel a hygyrch i ysgolion, seilwaith newydd a gwell

neu gyflwyno strydoedd ysgol. Ledled Cymru, mae dros 20 o Strydoedd Ysgol wedi'u treialu neu eu gweithredu, gyda llawer ohonynt wedi'u cynnal trwy grant gan ein Cronfa Teithio Llesol a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Mae Stryd Ysgol yn lleihau'r peryglon o amgylch yr ysgol ac yn gwella ansawdd yr aer trwy gyfyngu ar draffig ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.

**25.** Mae pwyslais pellach ar ddatblygu Cynlluniau Teithio Ysgolion i nodi a threchu rhwystrau i deithio iach yn yr ysgol, ategu ein rhaglen Teithiau Llesol ac i roi hyfforddiant beicio a cherdded i blant. Yn ogystal, rydym yn cefnogi'r rhaglen Cerdded i'r Ysgol, a ddarperir gan Living Streets, i annog myfyrwyr i gerdded, olwyno, sgwtio neu feicio i'r ysgol, gan annog ffyrdd iachach o fyw a lleihau'r ddibyniaeth ar geir i deithio i'r ysgol.

## Cynllun Cyflawni Teithio Llesol

**26.** Ers cyhoeddi Cynllun Cyflawni Teithio Llesol 2024-27 ym mis Mawrth, mae gwaith yn mynd rhagddo â'r camau a nodwyd ar gyfer y flwyddyn hon. Mae rhai camau eisoes wedi'u cwblhau, fel cyhoeddi'r pecyn hyrwyddo ac mae eraill ar y gweill. Bydd Llywodraeth Cymru yn adrodd yn ffurfiol ar hynt y Cynllun yng Ngwanwyn 2025.

## Cyllid ar gyfer teithio llesol a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau

**27.** Yn ystod 2023-24, buddsoddwyd £36.4 miliwn drwy'r Gronfa Teithio Llesol ledled Cymru. Gwariwyd £30.5 miliwn ar 34 prif gynllun, yn ogystal â £15.9 miliwn ar ddarparu cyllid craidd i bob awdurdod lleol. Gellir defnyddio'r cyllid craidd i wneud gwelliannau mân fel adeiladu croesfannau, meinciau, neu fannau parcio beiciau a chael cynlluniau mwy yn barod ar gyfer eu hadeiladu. Ar gyfer 2024-25, cafwyd mwy nag £89m o geisiadau i'r Gronfa Teithio Llesol. Mae dros £35 miliwn wedi'i ddyrannu i 37 prif gynllun, yn ogystal â £15.9 miliwn ar ddarparu cyllid craidd i bob awdurdod lleol.

**28.** Yn 2023-24, dyrannwyd dros £4.8m drwy'r grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ar gyfer 17 o gynlluniau ac fel cyllid dichonoldeb a datblygu cychwynnol ar gyfer Strydoedd Ysgol. Yn 2024-25, cafwyd mwy nag £9.5m o geisiadau i'r Gronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Mae dros £6 miliwn wedi'i ddyrannu i 24 o gynlluniau.

## Adroddiad Archwilio Cymru ar deithio llesol

**29.** Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi pob un o'r deg argymhelliad yn adroddiad Archwilio Cymru ar deithio llesol. Mae pump o'r argymhellion yn ymwneud â sut i gasglu data'n well. Bydd Arolwg Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru (NTS), yr ydym yn ei dreialu ar hyn o bryd, yn helpu i fynd i'r afael â hyn.

Bydd ein fframwaith monitro teithio llesol yn defnyddio'r NTS yn y dyfodol a data ehangach. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i sicrhau bod y monitro ar y lefel leol yn fwy cyson.

## Bwrdd Teithio Llesol

**30.** Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol cyntaf y Bwrdd Teithio Llesol ym mis Awst 2024. Fel adroddiad Archwilio Cymru, mae'r Bwrdd Teithio Llesol wedi pwyso am wella'r data ar deithio llesol yng Nghymru.

# 3. Polisi Ffyrdd

**31.** Mae'n Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth (CCCT) yn disgrifio'r rhaglenni, y prosiectau a'r polisïau y byddwn yn eu cynnal hyd at 2027.

**32.** Mae'r cynlluniau a nodwyd yn y CCCT wrthi'n cael eu cyflwyno. Mae'r gwelliannau i'r A55 Aber i Dai'r Meibion ac i'r A487 Pont Ddyfi Newydd wedi'u cwblhau ac yn agored i draffig a disgwylir cwblhau'r gwelliannau i'r A40 Llanddewi Felffre i Redstone Cross ac i Adrannau 5 a 6 yr A465 y naill yng ngwanwyn 2025 a'r llall yn haf 2025..

**33.** Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ym mis Rhagfyr 2024 ar gynllun pont newydd ar Afon Ddyfrdwy ar yr A494 gyda'r bwriad o ddatblygu opsiwn a ffefrir i'r cam cyhoeddi gorchmynion drafft erbyn hydref 2025. Darparwyd grant gennym ac rydym yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i ddatblygu gwelliannau i goridor aml-foddol yr A483 a gwella'r cysylltedd â chanol y ddinas. Mae ymgynghorwyr wedi'u penodi i wneud y gwaith hwn.

**34.** Penodwyd ymgynghorwyr hefyd i ddatblygu opsiynau ar gyfer yr argymhellion â'r flaenoriaeth uchaf a gafwyd gan gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru ar gyfer gwella cysylltiadau ar draws Afon Menai.

**35.** Mae asiant cyflogwr yn cael ei gaffael hefyd ar gyfer Ffordd Osgoi Llandeilo a Ffairfach yr A483 ac mae'r gwaith o ddatblygu opsiynau ac atebion ar gyfer nifer o gynlluniau blaenoriaeth uchel o dan y rhaglen Diogelwch a Gwydnwch yn mynd rhagddo - mae'r cynlluniau hyn yn cael eu datblygu drwy gamau WelTAG, ac mae mesurau tymor byr, canolig a hir yn cael eu hystyried ar gyfer pob safle.

**36.** Rydym yn ariannu cynlluniau ffyrdd awdurdodau lleol trwy ein grantiau trafnidiaeth. Mae'r rheini'n cynnwys cynlluniau i drwsio a gwella'r rhwydwaith ffyrdd presennol neu i ddatblygu ffyrdd newydd os yw'r dystiolaeth yn dangos mai ffordd newydd yw'r ateb gorau. Er enghraifft, eleni mae Llywodraeth

Cymru yn neilltuo £1.8m i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i drwsio ac ailagor y B5605 yn Newbridge, a £0.6m i Gyngor Gwynedd i ddatblygu cynlluniau i ddelio â'r traffig yn Llanbedr.

**37.** Rydym newydd wahodd awdurdodau lleol i wneud cais am grantiau trafnidiaeth ar gyfer 2025-26. Mae'r grantiau'n cynnwys y Gronfa Ffyrdd Cydnerth, lle gall awdurdodau lleol wneud cais am arian i addasu'r rhwydwaith ffyrdd i'r newid yn yr hinsawdd neu i wella cyflwr ffyrdd er lles yr holl ddefnyddwyr.

**38.** Rydym wrthi'n asesu'r dibenion adeiladu ffyrdd a gyhoeddwyd ar ôl cynnal yr adolygiad ffyrdd a byddwn yn holi awdurdodau lleol cyn hir i ddeall eu profiadau o roi'r dibenion ar waith. Rydym am sicrhau bod gennym fframwaith sy'n codi'r bar ac yn ein galluogi i adeiladu ffyrdd gwell mewn ffordd sy'n gyson â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae hyn yn golygu peidio ag ystyried yr opsiwn ffyrdd bob tro fel yr ateb i broblem drafnidiaeth. Dylid ystyried opsiynau eraill a meddwl yn arloesol am atebion (tra'n cydnabod mai cynllun ffordd fydd yr opsiwn gorau o dan rai amgylchiadau).

# 4. 20mya

**39.** Fe wnaethom ni gynnal rhaglen wrando yn yr haf, ac yn ogystal â'r awdurdodau lleol, fe wnaeth Llywodraeth Cymru fel awdurdod priffyrdd gyfrannu at ddiweddaru'r canllawiau. Cyhoeddwyd y canllawiau diweddaraf ar derfynau cyflymder 30mya ar ffyrdd cyfyngedig ym mis Gorffennaf 2024.

**40.** Rydym wedi dechrau gweithio gyda'r Asiantau Cefnffyrdd i adolygu'r terfynau cyflymder ar 111 darn o gefnffordd. Bydd yr adolygiad o derfynau cyflymder cefnffyrdd gyda'r awdurdodau lleol perthnasol, yn gofyn am gasglu llawer o ddata fel tystiolaeth er mwyn gwneud penderfyniadau cyson. Byddwn wedi cwblhau'r gwaith adolygu hwn ym mis Mai 2025 - erbyn hynny byddwn yn deall ble ar y rhwydwaith cefnffyrdd y bydd angen newid y terfynau 20mya a 30mya.

**41.** Er mwyn newid y terfyn cyflymder ar y rhwydwaith cefnffyrdd yn dilyn yr adolygiad hwn. rhaid wrth Orchmynion Rheoleiddio Traffig, a gall y broses honno gymryd 9 mis felly ni welwn newidiadau tan ganol 2026.

# 5. Bws

## Diwygio gwasanaethau bysiau

**42.** Rydym am roi opsiynau mwy hygyrch, fforddiadwy a chynaliadwy i bobl sydd am deithio. I wneud hynny, mae angen rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus arnom sy'n gweithio er lles pawb. Trwy roi trafnidiaeth gyhoeddus o dan reolaeth gyhoeddus, gallwn wireddu ein gweledigaeth o 'un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn', a darparu system integredig.

**43.** Fel y nodwyd gennym yn ein Papur Gwyn a'n Map Ffordd i Ddiwygio Bysiau 2022 (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024), rydym am ddiwygio'r gwasanaethau bysiau yng Nghymru, gan ddod â chynlluniau a chontractau bysiau o dan reolaeth y cyhoedd, er mwyn gallu eu darparu er budd y cyhoedd.

**44.** Mae'r system ddadreoleiddio bresennol yn golygu bod gweithredwyr bysiau masnachol yn cael dewis y darnau mwyaf proffidiol o'r rhwydwaith bysiau gan adael i'r awdurdodau lleol lenwi'r bylchau, lle gallant fforddio gwneud hynny. Mae'r system bresennol yn anstrategol ac yn ffordd aneffeithlon o ddefnyddio arian cyhoeddus. Daw'r rhan fwyaf o'r arian sy'n cael ei wario ar y system fysiau o goffrau cyhoeddus, ond eto nid ydym yn gwybod sut i greu system sy'n rhoi'r gwasanaeth cyhoeddus gorau.

**45.** Rydym yn cynnig system newydd i wyrdroi hynny, sy'n caniatáu i gyrff cyhoeddus gydweithio i gynllunio a darparu'r rhwydwaith bysiau lleol sydd ei angen ar bobl yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol i gynllunio a rhedeg rhwydweithiau bysiau lleol sy'n gweithio mor effeithiol â phosibl.

**46.** Yn gryno, bydd y Bil:

- Yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod gwasanaethau bysiau lleol yn cael eu darparu, drwy fasnachfreinio yn bennaf.
- Caniatáu i awdurdodau lleol greu cwmnïau bysiau newydd a chodi cyfyngiadau ar gwmnïau bysiau presennol sy'n eiddo i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu gweithredu'n gyfartal.
- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol rhwng sefydliadau ar gyfer rheoli'r rhwydwaith a chyda'r cyhoedd iddynt allu defnyddio gwasanaethau'n effeithiol.

**47.** Rydym wedi nodi'r Bil Bysiau fel blaenoriaeth ar gyfer gweddill tymor y Senedd hon. Byddwn yn cyflwyno'r Bil yn y Gwanwyn a phan fydd y Senedd wedi cael craffu arno a'i gymeradwyo, cael Cydsyniad Brenhinol iddo cyn diwedd tymor y Senedd hon. Bwriedir cyflwyno masnachfreintiau bysiau yn 2027, yn dilyn cyflwyno is-ddeddfwriaeth.

## Cymorth Ariannu Bysiau

**48.** Rydym yn cydnabod bod bysiau yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi ein heconomi yn ogystal â chaniatáu mynediad at addysg, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau a gweithgareddau pwysig eraill. Dyma pam ein bod wedi buddsoddi cyllid sylweddol yn ein diwydiant bysiau - ers dechrau'r pandemig yn unig rydym wedi darparu dros £250m i awdurdodau lleol gynnal gwasanaethau bysiau.

**49.** Cyflwynwyd ein Grant Rhwydwaith Bysiau ddechrau mis Ebrill eleni ac mae wedi disodli'r Cynllun Pontio Bysiau. Mae'r cynllun yn darparu £39m i awdurdodau lleol ar gyfer 2024/25 i ddarparu gwasanaethau bysiau na

fyddent fel arall yn cael eu darparu drwy eu dyletswyddau statudol presennol. Mae hyn ar ben £25m y Grant Cymorth Gwasanaeth Bysiau presennol ar gyfer 2024/25.

**50.** Rydym hefyd yn parhau i ariannu Cynllun Teithio Rhatach Cymru sy'n darparu teithiau bws lleol am ddim i bob preswylydd cymwys 60 oed a throsodd ledled Cymru. Mae preswylwyr anabl hefyd yn cael teithio am ddim. Eleni bydd yn golygu buddsoddiad dros £50m.

## TrawsCymru

**51.** Mae gwasanaethau TrawsCymru yn darparu cysylltiadau hanfodol â chymunedau a phrif ganolfannau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n uniongyrchol gan y rheilffyrdd. Pe na baem yn buddsoddi yn rhwydwaith TrawsCymru ni fyddai yna wasanaeth bws rheolaidd yn gwasanaethu rhannau eang o gefn gwlad Cymru. Mae nifer y teithwyr ar draws rhwydwaith TrawsCymru yn cynyddu'n dda yn dilyn pandemig Covid, ac mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithio'n frwd i hyrwyddo'r rhwydwaith i deithwyr newydd trwy ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd wedi'u targedu a hyrwyddo tocynnau.

**52.** Trwy gael Trafnidiaeth Cymru i gontractio gwasanaethau, rydym yn gallu gwella cysylltiadau a threfniadau tocynnau rhwng bysiau TrawsCymru a threnau mewn gorsafoedd allweddol. Er enghraifft, yng Ngorllewin Cymru rydym bellach yn cynnig tocynnau bws / rheilffordd 'trwyddo' cyfunol rhwng gorsafoedd bfysiau T1 Caerfyrddin ac Aberystwyth a threnau yng ngorsafoedd rheilffordd Aberystwyth a Chaerfyrddin. Y llynedd, y llwybr hwn oedd y cyntaf i gael ei drawsnewid yn llwybr di-allyriadau, yr ydym yn bwriadu ei gyflwyno ar draws rhwydwaith TrawsCymru.

**Y Pwyllgor Deisebau**

**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

8 Hydref 2024

Annwyl Gadeirydd

Deiseb P-06-1439 Gwella seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus hanfodol hwyr y nos yn Ne a De-orllewin Cymru

Fel y gwyddoch, bu'r Pwyllgor Deisebau yn trafod y ddeiseb uchod, a gyflwynwyd gan Lisa Mart, yn ei gyfarfod ar 16 Medi.

Rydym yn ysgrifennu i dynnu sylw at y ddeiseb a'i chynnwys. Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma:

https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=44291

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb dros e-bost at y tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir

Carolyn

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Ken Skates AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

21 Hydref 2024

Annwyl Ken,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2024 i drafod y polisi trafnidiaeth. Cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o eglurhad a gwybodaeth ynghylch amryw o faterion a godwyd yn ystod y cyfarfod.

## Y terfyn cyflymder 20mya

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y canllawiau i awdurdodau lleol i gefnogi gweithrediad y polisi wedi bod yn ddigon clir, ac a oedd hyn wedi arwain at ddull gweithredu anghyson ledled Cymru. Wrth ymateb, dywedasoch fod rhagor o waith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â phryderon y cyhoedd. Byddai hyn yn cynnwys dull tri cham, sef: ymgysylltu â'r cyhoedd ac awdurdodau lleol, mireinio'r canllawiau presennol, a gweithredu newidiadau i ffyrdd penodol lle bo angen. Byddai'r cyfnod gweithredu yn dechrau ym mis Medi.

Byddwch yn gwybod fod adroddiadau yn y cyfryngau wedi awgrymu y bydd maint y newidiadau'n sylweddol, a bod rhai adroddiadau'n disgrifio'r adolygiad fel tro pedol o ran y polisi.[1]. Mae pryderon y bydd hyn yn gwneud dim ond erydu ymhellach yr hyder yn y dull cyfathrebu ynghylch y polisi. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed pa gamau yr ydych chi'n eu cymryd i reoli disgwyliadau'r cyhoedd o ran y polisi.

- *O ystyried y bydd penderfyniadau ynghylch newidiadau i ffyrdd penodol yn fater i awdurdodau lleol (o fewn fframwaith canllawiau Llywodraeth Cymru), sut y byddwch yn ymdrin â phryderon y cyhoedd am anghysondebau posibl ledled Cymru?*

[1] **The end of hated 20mph speed limit in Wales: Roads revert to 30mph as transport minister reveals even his own family have signed 500,000-strong petition against the scheme | Daily Mail Online**



Senedd Cymru
Welsh Parliament

- *Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i reoli disgwyliadau'r cyhoedd o ran maint y newidiadau sy'n debygol o ddeillio o'r adolygiad?*

Tynnodd y Pwyllgor sylw at bryderon ynghylch cam-adrodd ar y polisi a chamddefnyddio ystadegau.

Er enghraifft, ym mis Gorffennaf, adroddodd y cyfryngau fod dirwyon o ganlyniad i'r polisi wedi dod i gyfanswm o £1.28 miliwn erbyn mis Mehefin. Ymddengys bod hwn yn deillio o luosi cyfanswm y "troseddau" a adroddwyd ar wefan GanBwyll â'r gosb benodedig o £100. Deallwn, fodd bynnag, mai dim ond tua chwarter y troseddau a arweiniodd at ddirwyon, a bod y gweddill naill ai'n cael sylw drwy ddulliau eraill, fel cyrsiau ymwybyddiaeth cyflymder, neu'n ymwneud â cherbydau a eithriwyd, fel cerbydau brys ar alwad.

Yn yr un modd, mae sylw yn y cyfryngau wedi nodi cynnydd mewn cyfraddau damweiniau mewn ardaloedd 20mya, ynghyd ag awgrymiadau gan ymgyrchwyr y gallai hyn ddangos bod ffyrdd 20mya yn llai diogel, heb amlygu bod cyfanswm pellter ffyrdd terfyn 20mya wedi cynyddu o 870km i 13,000km. Rydym yn nodi, am y rheswm hwn, fod Llywodraeth Cymru wedi adrodd ar gyfraddau damweiniau mewn ardaloedd 20mya a 30mya gyda'i gilydd.

Yn fwy cyffredinol, mae pryderon wedi'u codi am amharodrwydd ymddangosiadol Llywodraeth Cymru i esbonio'r polisi a'i amddiffyn yn wyneb beirniadaeth. Mae hyn yn anodd ei ddeall, yn enwedig o ystyried y pwyslais a roddasoch ar sicrhau cefnogaeth gyhoeddus i'r polisi.

- *A allwch egluro'r camau sy'n cael eu cymryd i hyrwyddo manteision y polisi i'r cyhoedd yng Nghymru, a sut y byddwch yn asesu a yw hyn wedi bod yn llwyddiant?*
- *Sut ydych chi'n ymateb i bryderon am amharodrwydd ymddangosiadol Llywodraeth Cymru i amddiffyn y polisi yn wyneb camwybodaeth yn y cyfryngau?*
- *Pa gamau yr ydych wedi'u cymryd i egluro dulliau adrodd ar y polisi yn gyffredinol, ac yn benodol yn achos y ddwy enghraifft a amlinellir uchod?*

## Y Datganiad Polisi Ffyrdd a'i adolygu

Yn ystod y cyfarfod, bu ichi bwysleisio pwysigrwydd gwneud penderfyniadau trafnidiaeth ar y lefel fwyaf priodol, a phwysleisiwyd eich ymrwymiad i rymuso awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig (CJCs) i wneud y penderfyniadau hyn. Amlygasoch fod angen hyblygrwydd o ran cyllid, i alluogi awdurdodau lleol i gael rhagor o reolaeth dros fuddsoddi mewn trafnidiaeth.

Cyfeiriasoch at fod angen ystyried a yw'r Datganiad Polisi Ffyrdd yn parhau'n effeithiol ac yn addas i'r diben, mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur. Roeddech yn dadlau y gall adeiladu ffyrdd newydd fod yn gyson â thargedau hinsawdd os yw'n hwyluso trafnidiaeth gyhoeddus fwy effeithiol ac yn lleihau tagfeydd ar ffyrdd lleol. Dywedasoch y gallai cynllunio ffyrdd mewn modd strategol leihau'r defnydd cyffredinol o gerbydau.

Nodwn nad yw'r Datganiad Polisi Ffyrdd presennol yn gwahardd buddsoddi mewn ffyrdd, ond y byddai'n caniatáu hynny mewn rhai amgylchiadau, gan gynnwys pan fyddai hynny'n "cefnogi newid moddol a lleihau allyriadau carbon". Rydym yn cydnabod eich bod yn dal i ystyried y polisi, ond byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o eglurhad ynghylch a ydych yn credu y byddai'r agwedd benodol hon ar y datganiad eisoes yn galluogi adeiladu ffyrdd o dan yr amgylchiadau a amlinellwyd gennych.

Fe wnaethoch hefyd nodi eich bod yn credu bod adeiladu ffyrdd yn gyson â tharged Cymru Sero Net - Cyllideb Garbon 2, sef gostyngiad o 10 y cant o ran milltiroedd ceir fesul person. Byddem yn gwerthfawrogi manylion ar y dystiolaeth sy'n cefnogi'r farn hon, gan gynnwys enghreifftiau o gynlluniau adeiladu ffyrdd sydd wedi arwain at ostyngiad net o ran milltiroedd ceir yn gyffredinol, yn hytrach na gostyngiadau ar lwybrau bwydo penodol neu'r rhwydwaith ffyrdd lleol ehangach.

- *A allwch egluro'r camau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod cyllid trafnidiaeth yn ddigon hyblyg i roi rhagor o reolaeth dros fuddsoddi i awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig?*
- *O ran eich sylwadau y gallai adeiladu ffyrdd fod yn ddymunol pan fo'n hybu trafnidiaeth gyhoeddus, a allwch egluro a ydych yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol yn y Datganiad Polisi Ffyrdd, sef bod buddsoddi mewn ffyrdd ac adeiladu ffyrdd yn cael ei ganiatáu lle byddai'n "cefnogi newid moddol a lleihau allyriadau carbon" yn caniatáu adeiladu o dan yr amgylchiadau a amlinellwyd gennych? Os nad ydych, pa agwedd fyddai'n ei atal?*
- *A allwch ddarparu data ac astudiaethau achos sy'n dangos sut mae prosiectau adeiladu ffyrdd diweddar wedi llwyddo i leihau'r defnydd o geir preifat yn unol â tharged Llywodraeth Cymru o 10 y cant?*
- *Sut ydych yn ceisio sicrhau bod unrhyw gynnig ar gyfer trydedd bont dros y Fenai yn cyd-fynd â nodau hinsawdd Llywodraeth Cymru, a pha asesiadau effaith amgylcheddol sy'n cael eu cynnal fel rhan o'r broses gynllunio?*

## Cynnal a Chadw Priffyrdd

Yn ystod y cyfarfod, roeddech yn frwd o blaid adolygiad Lugg ar gynnal a chadw'r rhwydwaith ffyrdd mewn modd strategol. Roeddech yn cydnabod ei bwysigrwydd wrth arwain arferion cynnal a chadw er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl ar gyfer newid moddol, bioamrywiaeth, gwydnwch o ran newid hinsawdd, a lleihau allyriadau.

Aethoch ymlaen i gydnabod yr ôl-groniad sylweddol sydd o ran gwaith cynnal a chadw ffyrdd, yr amcangyfrifwyd y bydd angen dros £1 biliwn i fynd i'r afael ag ef.

- *Sut mae canfyddiadau adolygiad Lugg yn cael eu hymgorffori mewn prosiectau cynnal a chadw ffyrdd ar hyn o bryd, a phrosiectau yn y dyfodol?*

- *Pa gamau penodol sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw ffyrdd lleol, ac o ystyried y costau cyffredinol a amcangyfrifir, sut mae blaenoriaethau'n cael eu pennu?*

### Teithio llesol

O ran teithio llesol, roeddech yn pwysleisio y dylai'r ffocws fod ar ansawdd rhaglenni teithio llesol yn hytrach na nifer cyffredinol y rhaglenni, a thynnwyd sylw at bwysigrwydd adnabod prosiectau mawr eu heffaith i gyrraedd targed 2030 a nodir yn y ddogfen Cymru Sero Net. Unwaith eto, roeddech yn cydnabod pa mor bwysig yw darparu hyblygrwydd o ran cyllid i awdurdodau lleol i ddyrannu cyllid ar sail eu hanghenion penodol, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw priffyrdd a phrosiectau teithio llesol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar deithio llesol wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar, a'i fod yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod ymhell o gyflawni'r newid sylweddol o ran teithio llesol a fwriadwyd drwy Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

- *Pa fecanweithiau sydd ar waith i sicrhau y bydd y cyllid a ddefnyddir gan awdurdodau lleol yn bodloni amcanion cynnal a chadw ffyrdd a theithio llesol?*
- *A allwch amlinellu eich amserlen ar gyfer ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Deithio Llesol, gan gynnwys cyhoeddi eich ymateb?*

### Diwygio bysiau

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch gadarnhau eich bod yn fodlon ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran diwygio bysiau ac na fyddai'r oedi wrth gyflwyno'r Bil Diwygio Bysiau yn effeithio ar yr amserlen gyffredinol.

Roeddech yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â thrawsnewid i fodel darpariaeth newydd, gan gynnwys sicrhau sefydlogrwydd tymor byr, rheoli costau, a chynnal rhwydwaith bysiau cynaliadwy. Yn ystod y trafodaethau, bu ichi dynnu sylw at fodelau ariannu arloesol sydd ar waith mewn gwledydd eraill, fel rhwydweithiau bysiau lleol rhad ac am ddim a ariennir gan y dreth gyngor mewn rhannau o Ffrainc, ac awgrymwyd y gellid ystyried modelau o'r fath yng Nghymru.

- *Pa gamau sy'n cael eu cymryd i edrych yn fanwl ar fodelau ariannu arloesol ar gyfer darparu gwasanaethau bysiau o wledydd eraill, fel y rhai yn Ffrainc?*
- *A allwch nodi'r dull a ddefnyddir i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r newid i fasnachfreinio bysiau?*

### Gwasanaethau Rheilffyrdd

Yn ystod y cyfarfod, cyfeiriasoch at welliannau ym mherfformiad Trafnidiaeth Cymru (TrC), yn enwedig o ran prydlondeb a llai o gansladau. Fodd bynnag, esboniasoch fod oedi'n digwydd yn aml oherwydd problemau o dan reolaeth Network Rail.

Bu ichi drafod y paratoadau ar gyfer cystadleuaeth yr Ewros o dan 19 mlwydd oed a gaiff ei chynnal yng Ngogledd Cymru yn 2026, gan sôn am gyfarfodydd diweddar a gafwyd ag arweinwyr o awdurdod lleol Wrecsam a Rob McElhenney, cydberchennog Clwb Pêl-droed Wrecsam, i gynllunio ar gyfer rhagor o draffig troed oherwydd llwyddiant y clwb pêl-droed. Ychwanegodd Steven McGregor fod cyfarfodydd wedi'u trefnu i drafod yr heriau a'r cyfleoedd posibl mewn cysylltiad â'r twrnamaint yng Ngogledd Cymru.

- *Yn eich datganiad yn Siambr y Senedd ar 24 Medi, cyfeiriasoch at sefydlu GBR Cymru, sef "Uned Fusnes Cymru a'r Gororau wedi'i grymuso o fewn Great British Railways—GBR Cymru". A allwch roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am hyn, a rôl statudol Gweinidogion Cymru y cyfeiriasoch ati, gan gynnwys manylion unrhyw ymrwymiadau cadarn yr ydych wedi'u cael gan Lywodraeth y DU?*
- *Pa drafodaethau yr ydych yn eu cael gyda'ch cymheiriaid yn Llywodraeth y DU am yr angen i wella'r seilwaith rheilffyrdd ar fyrder, a rôl Network Rail yng Nghymru?*
- *Beth yw'r prif heriau a nodwyd wrth gynllunio ar gyfer cystadleuaeth yr Ewros o dan 19 mlwydd oed yng Ngogledd Cymru, a pha gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Drafnidiaeth Cymru i helpu i fynd i'r afael â hwy?*

## Datgarboneiddio trafnidiaeth gyhoeddus

Roeddech yn cydnabod yr anhawster o gyrraedd targed 2028, i 50 y cant o'r fflyd fysiau gyflawni'r nod o ddim allyriadau pibellau gwacáu. Dywedasoch y gellid hwyluso'r newid i ddim allyriadau drwy'r trefniadau masnachfreinio bysiau newydd, er y byddai cyrraedd y targed yn parhau'n her sylweddol o ganlyniad i gostau a'r pwysau ar gyllid cyhoeddus.

- *A ydych yn bwriadu adolygu targed 2028 yng ngoleuni'r heriau a amlinellwyd gennych?*
- *Sut y caiff y broses o gyflwyno masnachfreinio bysiau ei strwythuro i sicrhau ei fod yn cefnogi'r newid i fysiau dim allyriadau pibellau gwacáu?*

Hoffem ddiolch ichi unwaith eto am eich cyfraniad adeiladol at waith parhaus y Pwyllgor ar y polisi trafnidiaeth.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn 14 Tachwedd fan bellaf.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Ken Skates AS/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AS,

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

14 Tachwedd 2024

Annwyl Llŷr

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Hydref yn gofyn am eglurhad pellach a gwybodaeth am nifer o bwyntiau a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor. Gweler yr atebion isod i'ch cwestiynau:

**TERFYN CYFLYMDER 20MYA**

- *O ystyried y bydd penderfyniadau ynghylch newidiadau i ffyrdd penodol yn fater i awdurdodau lleol (o fewn fframwaith canllawiau Llywodraeth Cymru), sut y byddwch yn ymdrin â phryderon y cyhoedd am anghysondebau posibl ledled Cymru?*

Mae consensws cynyddol ynghylch beth yw cyflymder diogel mewn cymunedau a gallwn adeiladu ar hynny. Rydym yn dal i gredu bod 20mya yn iawn, ond rydym am sicrhau ein bod yn pennu’r cyflymder iawn ar y ffyrdd iawn.

Rhwng mis Ebrill ac Awst 2024, cefais gwrdd â dinasyddion, gyrwyr bysiau, gwasanaethau brys, yr heddlu, pobl ifanc, pobl fregus, busnesau, cynghorwyr sir, tref a chymuned, awdurdodau lleol a llawer o rai eraill – i wrando arnyn nhw a deall eu barn am ddiogelwch ar y ffyrdd mewn ardaloedd preswyl.

Ym mis Gorffennaf 2024, gwnaethom roi canllawiau newydd i awdurdodau priffyrdd i'w gwneud yn gliriach pa ffyrdd gaiff fod yn 30mya. Yn 2024, mae'r cyhoedd wedi cael cyfle i ddweud ble maen nhw'n teimlo y dylid gwneud newidiadau. Mae awdurdodau priffyrdd yn defnyddio ein canllawiau diwygiedig i asesu'r syniadau hyn.

Er mwyn cael newid terfyn cyflymder, rhaid gwneud gorchymyn rheoleiddio traffig. Bydd y broses hon yn cymryd sawl mis i'w chwblhau.

Mae swyddogion yn parhau i gynnal cyfarfodydd rhanbarthol gyda'r holl awdurdodau lleol i'w helpu gyda'r newidiadau hyn gan sicrhau eu bod yn gallu rhannu arfer gorau a'u bod yn gweithredu'n gyson. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod pob Awdurdod Lleol yn gweithredu fel yr awdurdod priffyrdd lleol ac, yn y pen draw, mater iddyn nhw yw sut ddehongli'r canllawiau a gwneud unrhyw newidiadau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- *Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i reoli disgwyliadau'r cyhoedd o ran maint y newidiadau sy'n debygol o ddeillio o'r adolygiad?*

Dros yr haf, anogwyd pobl i roi adborth i'w hawdurdod priffyrdd er mwyn sicrhau bod gennym y cyflymderau iawn ar y ffyrdd iawn ledled Cymru. Mae awdurdodau priffyrdd bellach wrthi'n edrych ar yr adborth hwnnw. Rydym wedi neilltuo £5 miliwn o gyllid ychwanegol i helpu awdurdodau priffyrdd i wneud y newidiadau.

Bydd awdurdodau priffyrdd yn hysbysebu unrhyw newidiadau sydd ganddyn nhw mewn golwg drwy'r broses Gorchymyn Rheoleiddio Traffig statudol, sy'n cynnwys cyfnod ymgynghori cyhoeddus 21 diwrnod i roi cyfle i'r cyhoedd gynnig eu sylwadau am y newidiadau dan sylw. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi awdurdodau priffyrdd i roi neges gyson i'r cyhoedd am y newidiadau gan baratoi pecyn cymorth cyfathrebu i'r perwyl hwn. Mae hynny'n cynnwys rheoli disgwyliadau o ran nifer y ffyrdd a fydd yn newid a'r angen i fod yn glir mai 20mya yw'r terfyn cyflymder diofyn o hyd. Nid newid polisi yw hwn, ond adolygiad i newid y terfyn cyflymder i 30mya pan ystyrir ei bod yn ddiogel gwneud hynny.

- *A allwch egluro'r camau sy'n cael eu cymryd i hyrwyddo manteision y polisi i'r cyhoedd yng Nghymru, a sut y byddwch yn asesu a yw hyn wedi bod yn llwyddiant?*

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal gwerthusiad pum mlynedd o'r polisi. Canlyniad hyn fydd adroddiad yn gwerthuso'r broses erbyn 2025, adroddiad gwerthuso canol tymor erbyn mis Ebrill 2027 ac adroddiad gwerthuso'r effaith derfynol erbyn 2029. Caiff asesiad ystyrlon o'r polisi ei wneud dros y cyfnod tymor hwy hwn, fydd yn cynnwys ffigurau gwrthdrawiadau, newidiadau yn agwedd y cyhoedd at y terfyn 20mya ac amcangyfrif o'r newidiadau mewn allyriadau carbon deuocsid.

Mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) wedi cyhoeddi ffframwaith monitro sy'n nodi'r hyn sy'n cael ei fonitro a sut y bydd y monitro yn digwydd. Mae cam cynta'r monitro wedi'i gwblhau, i fesur (ymhlith pethau eraill) ddangosyddion perfformiad megis cyflymder cerbydau, gwrthdrawiadau, anafiadau, amseroedd teithio ac ansawdd aer. Mae'n dangos y canlynol:

- Mae cerbydau ar brif ffyrdd trwodd 20mya yn teithio ar gyfartaledd 4.3mya yn arafach. Dechreuodd hyn yn fuan ar ôl cyflwyno'r terfyn newydd. Mae 58% o gerbydau bellach yn cael eu gyrru ar 24mya neu lai, o'i gymharu ag 20% o'r blaen. Disgwylir i'r gostyngiadau hyn leihau'r risg o wrthdrawiad a lleihau difrifoldeb yr anafiadau.
- Mae amseroedd teithio wedi cynyddu ar gyfartaledd ar y rhan fwyaf o'r llwybrau a aseswyd, ond ar y cyfan ddim o fwy na 2 funud. Yr un pryd, mae'r amser teithio ar y rhan fwyaf o lwybrau yn amrywio llai, sy'n awgrymu amser teithio mwy dibynadwy sy'n rhoi mwy o sicrwydd ynghylch hyd y daith wrth yrru ar lwybr penodol.
- Ni ddatgelodd y gwaith monitro ansawdd aer a gynhaliwyd yn yr ardaloedd cam 1 tan fis Ebrill 2024 unrhyw wahaniaeth sylweddol yn y nitrogen deuocsid rhwng yr ardaloedd 20mya a'r rheini y tu allan iddynt.

Mae yna hefyd ddata eilaidd yn cael ei gasglu am wrthdrawiadau ffyrdd sy'n cael eu cofnodi gan yr heddlu. Mae ystadegau Ebrill - Mehefin 2024, sef rhai diweddaraf yr heddlu, yn dangos bod gwrthdrawiadau (24%) ac anafusion (24%) ar ffyrdd 20mya a 30mya (gyda'i gilydd) wedi gostwng bron i chwarter o'u cymharu â'r un cyfnod yn 2023. Dyma'r isaf erioed y tu allan i'r pandemig.

Rydym yn gwybod hefyd, ers cyflwyno'r terfyn 20mya ym mis Medi 2023, bod nifer y gwrthdrawiadau (26%) a'r anafusion (28%) ar ffyrdd 20mya a 30mya (gyda'i gilydd) wedi gostwng mwy na chwarter. Y tri gostyngiad chwarterol yn y cyfnod hwn yw'r tri gostyngiad chwarterol mwyaf erioed y tu allan i gyfnod y pandemig.

- *Sut ydych chi'n ymateb i bryderon am amharodrwydd ymddangosiadol Llywodraeth Cymru i amddiffyn y polisi yn wyneb camwybodaeth yn y cyfryngau?*

Rydym wedi bod yn dweud yn gyson y bydd y polisi 20mya diofyn yn lleihau gwrthdrawiadau ac yn achub bywydau. Ers cyflwyno'r terfyn cyflymder newydd, rydym wedi hyrwyddo ystadegau'r heddlu am wrthdrawiadau, sy'n dangos, ers mis Medi 2023, ein bod wedi gweld arwyddion addawol bod gwrthdrawiadau ac anafusion yn gostwng.

Dros yr haf buom yn cymryd rhan mewn rhaglen wrando ac rydym wedi paratoi canllawiau newydd i helpu Awdurdodau Lleol i wneud penderfyniadau lleol gwell. Rydym wedi tynnu sylw'r cyfryngau at y gwaith hwn ac wedi parhau i ddatgan ein barn mai 20mya yw'r cyflymder cywir lle mae pobl yn byw, gweithio a chwarae.

- *Pa gamau yr ydych wedi'u cymryd i egluro dulliau adrodd ar y polisi yn gyffredinol, ac yn benodol yn achos y ddwy enghraifft a amlinellir uchod?*

Wrth benderfynu ar gamau nesa'r polisi hwn, rydym wedi dweud yn glir yn ein datganiadau mai 20mya yw'r cyflymder cywir lle mae pobl yn byw, gweithio a chwarae. Rydyn ni eisiau rhoi llais i bobl am 20mya a chael y cyflymder iawn ar y ffyrdd iawn.

Rydym yn gweithio'n agos gyda GoSafe, sy'n arwain y gwaith ar gyfathrebu ynghylch gorfodi. Rydym hefyd wedi eu hannog i ofyn am y cywiriadau sydd eu hangen i'r ystadegau y maen nhw'n eu cyhoeddi.

Wrth gyhoeddi ystadegau ar wrthdrawiadau ffyrdd a gofnodwyd gan yr heddlu, rydym wedi cynnal sesiynau briffio technegol ar gyfer y cyfryngau i'w helpu i ddeall cynnwys y datganiadau a'u cyfleu'n gywir. Rydym yn tynnu sylw darparwyr newyddion at unrhyw ystadegau anghywir y maen nhw'n eu cyhoeddi ac rydym wedi cyhoeddi blog i gywiro camwybodaeth ar 20mya: [Terfynau Cyflymder 20mya / Cofnod Cywir].

**DATGANIAD AC ADOLYGIAD O'R POLISI FFYRDD**

- *A allwch egluro'r camau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod cyllid trafnidiaeth yn ddigon hyblyg i roi rhagor o reolaeth dros fuddsoddi i awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig?*

Ar hyn o bryd mae'r pedwar Cydbwyllgor Corfforaethol (CBC) yng Nghymru yn paratoi Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n nodi eu blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth yn eu rhanbarth am y pum mlynedd nesaf. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig sawl grant cyfalaf gwahanol i Awdurdodau Lleol megis y Gronfa Teithio Llesol, y Gronfa Trafnidiaeth Leol a'r Gronfa Ffyrdd Cydnerth. Mae gan bob un feini prawf gwahanol. Rydym yn ystyried sut i gyfuno'r grantiau'n un ffynhonnell o gyllid i roi'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ar waith, ond gan sicrhau hefyd bod y pedwar CBC yn cael cyfrannu at benderfynu sut i wario'r cyllid.

- *O ran eich sylwadau y gallai adeiladu ffyrdd fod yn ddymunol pan fo'n hybu trafnidiaeth gyhoeddus, a allwch egluro a ydych yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol yn y Datganiad Polisi Ffyrdd, sef bod buddsoddi mewn ffyrdd ac adeiladu ffyrdd yn cael ei ganiatáu lle byddai'n "cefnogi newid moddol a lleihau allyriadau carbon" yn caniatáu adeiladu o dan yr amgylchiadau a amlinellwyd gennych? Os nad ydych, pa agwedd fyddai'n ei atal?*

Ni ddylid trin y dibenion a ddisgrifir yn y datganiad polisi fel profion 'du a gwyn' syml. Pe baem yn gwneud hynny, ni fyddai'r penderfyniadau niferus gwahanol sydd ynghlwm wrth adeiladu ffordd yn cael eu hystyried, gan gynnwys dyluniad y ffordd a'r dull adeiladu. Ond, o dan lawer o amgylchiadau, byddai adeiladu ffordd i hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus yn gyson â'r nod o gefnogi newid moddol a lleihau allyriadau carbon. Rydym wrthi'n asesu sut mae'r rheini sy'n

defnyddio'r datganiad o'r polisi ffordd yn ei ddehongli ac yn ei gymhwyso, er mwyn sicrhau bod gennym fframwaith sy'n gweithio yn unol â'i fwriad.

- *A allwch ddarparu data ac astudiaethau achos sy'n dangos sut mae prosiectau adeiladu ffyrdd diweddar wedi llwyddo i leihau'r defnydd o geir preifat yn unol â tharged Llywodraeth Cymru o 10 y cant?*

Dau brosiect adeiladu ffyrdd gafodd eu hadeiladu'n ddiweddar (18 mis diwethaf) oedd y Gwelliannau i'r A55 Aber i Tai'r Meibion a'r Gwelliannau Pont Newydd Dyfi ar yr A487. Prif amcanion y ddau gynllun oedd gwneud y ffyrdd yn fwy diogel ac yn fwy abl i wrthsefyll llifogydd. Cafodd gwelliannau sylweddol eu gwneud hefyd i gysylltiadau teithio llesol. Ar y Gwelliannau i'r A55 Aber i Tai'r Meibion, cofnodwyd deg gwaith yn fwy o ddefnydd ar y llwybr teithio llesol gafodd ei wella (Llwybr Beicio Cenedlaethol 5) rhwng Ionawr a Mai 2023 nag yn yr un cyfnod yn 2024. Mae hyn yn dangos bod pobl yn defnyddio dulliau teithio cynaliadwy yn hytrach na cheir preifat lle darperir cyfleusterau teithio llesol o ansawdd uchel a diogel fel rhan o gynllun ffordd.

- *Sut ydych yn ceisio sicrhau bod unrhyw gynnig ar gyfer trydedd bont dros y Fenai yn cyd-fynd â nodau hinsawdd Llywodraeth Cymru, a pha asesiadau effaith amgylcheddol sy'n cael eu cynnal fel rhan o'r broses gynllunio?*

Nid oes unrhyw waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu cynigion ar gyfer trydedd pont dros y Fenai, felly nid oes unrhyw asesiadau yn cael eu cynnal o'r effaith amgylcheddol.

Fodd bynnag, yn dilyn yr Adolygiad Ffyrdd, gwnaeth Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru 16 o argymhellion ar 'Wella Gwytnwch Cysylltiadau ar draws Afon Menai.' Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru Gwella Gwytnwch Cysylltiadau ar Draws Afon Menai. Mae ymgynghorwyr wedi'u penodi i roi'r argymhellion sydd â'r flaenoriaeth uchaf ar waith, gan gynnwys; adolygu'r terfyn cyflymder ac ystyried newidiadau i ffordd gerbydau y prif lein, y ffyrdd ymuno a dyluniad cyffyrdd ar yr A55; opsiynau i osod dargyfeirwyr gwynt a llwybr teithio llesol ar Bont Britannia.

**CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD**

- *Sut mae canfyddiadau adolygiad Lugg yn cael eu hymgorffori mewn prosiectau cynnal a chadw ffyrdd ar hyn o bryd, a phrosiectau yn y dyfodol?*

Rydym wedi mabwysiadu'r Dull Newydd o Gynnal a Chadw Ffyrdd yn sgil cytuno ag argymhellion Adolygiad Lugg. Mae'r ffocws ar:

- Wella strategaethau rheoli a chynnal a chadw asedau
- Alinio blaenoriaethau cynnal a chadw â Pholisi
- Casglu a dadansoddi data arolygon yn well i ni allu gwneud penderfyniadau ynghylch cynnal a chadw ar sail tystiolaeth
- Blaenoriaethu adnoddau fel eu bod yn ddigonol i wireddu ein blaenoriaethau

Rydym yn bwrw ymlaen hefyd â rhaglen Adnewyddu Asedau Mawr (MAR) – sef yn bennaf y cynlluniau trwsio strwythurol cymhleth a mawr ar y rhwydwaith y mae angen eu cynnal i gadw ffyrdd yn ddiogel a rhag gorfod eu cau.

Datblygwyd methodoleg blaenoriaethu yn seiliedig ar ffactorau fel diogelwch, pwysigrwydd i'r rhwydwaith, brys, datgarboneiddio a chyfleoedd ar gyfer teithio cynaliadwy. Gwnaethom ymgysylltu â phartneriaid yn y diwydiant a'r gadwyn gyflenwi ledled y DU ar 10 Hydref 2024 i lansio'r rhaglen MAR ac i gael adborth ar sut i sicrhau arloesedd a datgarboneiddio trwy'r cylch darparu ac opsiynau a chyfleoedd caffael.

Mae gwaith da yn cael ei wneud i fynd â'r rhaglen hon yn ei blaen, gyda chynlluniau blaenoriaeth uchel, gan gynnwys codi Pont Dyfrdwy newydd yr A494, eisoes ar y gweill. Bydd y rhaglen gyfan a'r amserlenni yn dibynnu ar faint o gyllid fydd ar gael.

- *Pa gamau penodol sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw ffyrdd lleol, ac o ystyried y costau cyffredinol a amcangyfrifir, sut mae blaenoriaethau'n cael eu pennu?*

Yn ogystal â'r Grant Cynnal Refeniw, rydym yn neilltuo grantiau i Awdurdodau Priffyrdd ledled Cymru i wella ffyrdd lleol drwy gronfeydd fel ein Cronfa Trafnidiaeth Leol, Cronfa Ffyrdd Gwydn a'r Gronfa Teithio Llesol. Trwy eu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn gallu blaenoriaethu'r gwaith pwysicaf sydd ei angen ar eu rhwydwaith priffyrdd, a byddwn yn gweithio gyda nhw i roi hyd yn oed mwy o reolaeth iddynt dros eu cyllidebau i gyflawni'r blaenoriaethau hynny.

**TEITHIO LLESOL**

- *Pa fecanweithiau sydd ar waith i sicrhau y bydd y cyllid a ddefnyddir gan awdurdodau lleol yn bodloni amcanion cynnal a chadw ffyrdd a theithio llesol?*

Mae awdurdodau lleol yn gwneud cais am gyllid ar gyfer teithio llesol drwy ein Cronfa Teithio Llesol a'r grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Mae'r Gronfa Teithio Llesol yn cynnwys elfen graidd, gan warantu o leiaf swm penodol o gyllid ar gyfer pob awdurdod lleol. Gellir defnyddio'r cyllid craidd ar gyfer mân waith fel pantau ar cwrbinau, seddi i gerddwyr, chwalu rhwystrau a mannau cadw beiciau.

Mae Llywodraeth Cymru am weld datganoli cyllid grantiau trafnidiaeth i awdurdodau lleol. O 2026-27, bydd grantiau trafnidiaeth awdurdodau lleol (gan gynnwys y Gronfa Teithio Llesol a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau) yn cael eu defnyddio i ariannu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynlluniau Cyflawni'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol. Bydd y cynlluniau hyn, er yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol, yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru. Daw'r arian ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd o gyllideb ar wahân.

- *A allwch amlinellu eich amserlen ar gyfer ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Deithio Llesol, gan gynnwys cyhoeddi eich ymateb?*

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i adroddiad Archwilio Cymru ac wedi derbyn ei argymhellion. Dw i'n atodi copi o ymateb Llywodraeth Cymru.

**DIWYGIO'R BYSIAU**

- *Pa gamau sy'n cael eu cymryd i edrych yn fanwl ar fodelau ariannu arloesol ar gyfer darparu gwasanaethau bysiau o wledydd eraill, fel y rhai yn Ffrainc?*

Rydym bob amser yn awyddus i edrych ar brofiadau gwledydd eraill, yn y DU a thu hwnt, a dysgu oddi wrthynt. Rydym yn gwybod am fodelau cyllido gwahanol, gan gynnwys y rhai yn Ffrainc, a bydd swyddogion yn ceisio dysgu mwy amdanyn nhw i ddylanwadu ar sut rydym ni'n gwneud pethau yng Nghymru.

- *A allwch nodi'r dull a ddefnyddir i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r newid i fasnachfreinio bysiau?*

Rydym yn cydnabod, os caiff y Bil Bysiau ei basio, bod masnachfreinio'r bysiau yn golygu newid sylweddol i'r diwydiant, a bod risgiau'n dod yn ei sgil. Er mwyn lleihau'r risgiau hyn, rydym yn gweithio'n agos iawn gydag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys TrC, awdurdodau lleol, undebau llafur a gweithredwyr bysiau. Mae TrC wedi dechrau cyfres o sesiynau trafod â gweithredwyr bysiau ac yn cwrdd yn rheolaidd ag awdurdodau lleol ac

undebau llafur wrth i ni gynllunio ar gyfer rhwydwaith bysiau sy'n gweithio'n fwy effeithiol er lles defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr y rhwydwaith.

Mae gennym strwythur llywodraethu gyda TrC i sicrhau rheolaeth briodol ar risgiau, penderfyniadau a'n rhaglen waith gymhleth ar gyfer masnachfreinio'r bysiau.

**GWASANAETHAU TRENAU**

- *Yn eich datganiad yn Siambr y Senedd ar 24 Medi, cyfeiriasoch at sefydlu GBR Cymru, sef "Uned Fusnes Cymru a'r Gororau wedi'i grymuso o fewn Great British Railways—GBR Cymru". A allwch roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am hyn, a rôl statudol Gweinidogion Cymru y cyfeiriasoch ati, gan gynnwys manylion unrhyw ymrwymiadau cadarn yr ydych wedi'u cael gan Lywodraeth y DU?*

Rwyf wedi cael trafodaethau cynhyrchiol gyda Gweinidog Rheilffyrdd y DU, yr Arglwydd Hendy, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Louise Haigh, ynghylch ein prif flaenoriaethau ar gyfer Diwygio'r Rheilffyrdd. Rydym wedi trafod sefydlu GBR Cymru, creu rhaglen welliannau i Gymru, a rhoi mwy o rôl i Weinidogion Cymru wrth bennu gwasanaethau trawsffiniol. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gydweithio â ni ar y blaenoriaethau hyn a'n huchelgeisiau cyffredin i hybu cyfleoedd a chreu canlyniadau gwell i deithwyr.

Mae sefydlu GBR Cymru, uned fusnes wedi'i grymuso i Gymru a'r Gororau o fewn Great British Railways (GBR), yn rhan allweddol o'r diwygio ehangach yr ydym yn gofyn amdano. Byddai creu uned fusnes sydd wedi'i grymuso, sy'n cael ei rhedeg yn lleol ac sy'n atebol i Weinidogion Cymru a'r Senedd yn golygu newid mawr i'r drefn bresennol. Ochr yn ochr â setliad ariannu teg, bydd hyn yn cyfrannu at wella canlyniadau i deithwyr drwy sicrhau bod rheilffyrdd Cymru yn cael eu rheoli a'u datblygu i ddiwallu eu hanghenion ac i gwrdd â'u disgwyliadau penodol yn unol â blaenoriaethau a pholisi Cymreig. Rydym wrthi'n cydweithio â phartneriaid yn y diwydiant a chyda Llywodraeth y DU i ddatblygu manylion y cynnig gan ganolbwyntio ar sicrhau'r atebolrwydd angenrheidiol hwn a chanlyniadau gwell i deithwyr ledled Cymru a'r Gororau.

- *Pa drafodaethau yr ydych yn eu cael gyda'ch cymheiriaid yn Llywodraeth y DU am yr angen i wella'r seilwaith rheilffyrdd ar fyrder, a rôl Network Rail yng Nghymru?*

Mae'r angen i wella'r rheilffyrdd yng Nghymru yn ffocws allweddol yn fy nhrafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth y DU. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu piblinell o welliannau i seilwaith y rheilffyrdd drwy Fwrdd Rheilffyrdd Cymru, sydd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr TrC a Network Rail.

Bydd rôl Network Rail yng Nghymru yn cael ei hystyried fel rhan o gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Diwygio'r Rheilffyrdd. Rydym wedi disgrifio'n blaenoriaethau ar gyfer Diwygio'r Rheilffyrdd, gan gynnwys yr angen i Gymru fod yn atebol am reoli a gwella'r seilwaith rheilffyrdd, ac rwy'n trafod hyn yn rheolaidd â Llywodraeth y DU.

- *Beth yw'r prif heriau a nodwyd wrth gynllunio ar gyfer cystadleuaeth yr Ewros o dan 19 mlwydd oed yng Ngogledd Cymru, a pha gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Drafnidiaeth Cymru i helpu i fynd i'r afael â hwy?*

Rwy'n falch iawn o gael croesawu Pencampwriaethau Pêl-droed dan 19 UEFA i Ogledd Cymru yn 2026. Mae TrC yn datblygu cynlluniau gweithredol pwrpasol ar gyfer digwyddiadau mawr ac mae ganddynt brofiad o weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod teithwyr yn cael teithio'n ddiogel i ac o'u cyrchfan. Gwelwyd hyn ar waith yn yr haf pan lwyddodd TrC i symud cannoedd o filoedd o deithwyr ar gyfer digwyddiadau mawr ledled Cymru. Rwy'n hyderus y byddant yn gweithio'n adeiladol gydag UEFA a Chymdeithas Bêl-droed Cymru i gytuno ar gynllun cadarn i gludo'r nifer tebygol o bobl a fydd yn teithio i'r digwyddiad.

Roeddwn hefyd yn falch iawn o gyhoeddi cynlluniau yn ddiweddar i gynyddu capasiti Prif Reilffordd Gogledd Cymru yn sylweddol erbyn 2026. Bydd TrC yn darparu 50% yn fwy o wasanaethau wedi'u hamserlennu ar y lein fydd yn hwb enfawr i gapasiti'r rhanbarth cyfan.

**DATGARBONEIDDIO TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS**

- *A ydych yn bwriadu adolygu targed 2028 yng ngoleuni’r heriau a amlinellwyd gennych?*

Ydym. Bydd angen newid y targedau ar gyfer datgarboneiddio'r fflyd fysiau. Mae allyriadau carbon bysiau yn gyfwerth â thua 3% o holl allyriadau trafnidiaeth yng Nghymru ac felly ni ellir eu hanwybyddu. Mae gennym hefyd rai o'r bysiau hynaf yn y DU. Wedi dweud hynny, mae lleihau allyriadau carbon bysiau yn fater drud. Wrth i ni symud at fasnachfreinio'r bysiau, mae'n bwysig bod gennym fflyd fysiau sy'n addas i'r diben ac yn ddeniadol i deithwyr. Mae gofyn am fflyd o tua 1,600 o fysiau yng Nghymru ynghyd â seilwaith ar gyfer eu gwefru a thanwydd. Mae fy swyddogion bron â chwblhau cynlluniau i gael rhaglen dreigl o fflyd bysiau newydd dros y 15 mlynedd nesaf, a byddaf yn eu rhannu â'r pwyllgor cyn gynted ag y byddant yn barod.

- *Sut y caiff y broses o gyflwyno masnachfreinio bysiau ei strwythuro i sicrhau ei fod yn cefnogi’r newid i fysiau dim allyriadau pibellau gwacáu?*

Y meddwl ar hyn o bryd yw y bydd masnachfreinio yn cael ei gyflwyno ar draws rhanbarthau yng Nghymru, gan ddechrau gyda'r de-orllewin. I'r graddau bod hynny'n bosibl neu'n fforddiadwy, y bwriad yw darparu bysiau heb allyriadau i gymryd lle'r cerbydau hŷn ym mhob rhanbarth wrth i ni fasnachfreinio. Bydd hefyd angen cael gwared ar rai o'r cerbydau hŷn a mwyaf llygrol yn y rhanbarthau cyn dechrau masnachfreinio. Gallai hynny olygu rhaeadru cerbydau o'r ardaloedd lle rydym yn masnachfreinio gyntaf. Mae'r egwyddor o gael cerbydau newydd yn lle'r cerbydau hynaf a mwyaf llygrol gyntaf yn allweddol i'n cynllun. Am y 3 blynedd nesaf, bydd angen darparu rhai bysiau diesel newydd, sy'n llawer llai llygrol na'r bysiau hŷn sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Hynny am y bydd angen darparu seilwaith tanwydd a gwefru newydd cyn cyflwyno fflyd newydd heb allyriadau mewn ardal. Fel y dywedwyd, byddaf yn rhannu manylion y cynlluniau i gyflwyno fflyd newydd cyn gynted ag y byddant yn barod.

Yn gywir



**Ken Skates AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Joel James AS
Aelod o'r Senedd dros Ganol De Cymru
Gweinidog Cysgodol Partneriaeth Gymdeithasol

21 Hydref 2024

Annywl Joel,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â Chynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol Cymru ac am ddod â'r mater pwysig hwn i sylw'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd ecosystemau morwellt wrth gefnogi bioamrywiaeth a lliniaru newid yn yr hinsawdd. Codwyd y Cynllun Gweithredu Morwellt gan sawl rhanddeiliad yn ystod ein hymchwiliad presennol i atal colli bioamrywiaeth. Yn wir, cafodd yr Aelodau gyfle i fynd ar drywydd y mater gydag Ysgrifennydd y Cabinet pan ymddangosodd gerbron y Pwyllgor ar 16 Hydref.

Byddaf yn sicrhau eich bod yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau perthnasol wrth i ni baratoi a chyhoeddi adroddiad ein hymchwiliad. Diolch unwaith eto am godi'r mater pwysig hwn gyda'r Pwyllgor.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Ein cyf: HIDCC/PO/0284/24

Mike Hedges MS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llŷr Gruffydd MS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru

11 Hydref 2024

Annwyl Mike, Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i'ch hysbysu o gyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero-Net, Ynni a Newid Hinsawdd, a gynhelir ar 17 Hydref 2024 yn Yr Alban. Rwy'n ymddiheuro am ysgrifennu ar fyr rybudd, ond dim ond yr wythnos yma cafodd y cyfarfod ei gadarnhau. Rwy'n rhagweld y bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar heriau cyffredin yn cyrraedd sero net ac yn datgarboneiddio'r sector pŵer, ac ar gydweithrediad rhwng y pedwar llywodraeth yn y DU.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0318/24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

7 Tachwedd 2024

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod i chi y bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn cael ei gynnal ar 18 Tachwedd.

Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru. Mae disgwyl i'r cyfarfod ganolbwyntio ar Gyllideb Llywodraeth y DU a dyraniadau cyllid, rhaglen waith y Grŵp Rhyngweinidogol, yr economi gylchol, ffiniau a phrinder gweithwyr o fewn y sector amaethyddiaeth a bwyd. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y trafodaethau, a bydd hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ôl y cyfarfod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Environment, Food and Rural Affairs Committee**

Wednesday 6 November 2024

**Chair Llyr Gruffydd MS**
**Climate Change, Environment and Infrastructure Committee**
**Cardiff**
***By email***

**Subject: Inter-Parliamentary engagement**

Dear Llyr,

I am writing to you in your capacity as Chair of the Senedd Cymru Climate Change, Environment and Infrastructure Committee.

As the recently elected Chair of the House of Commons Environment, Food and Rural Affairs Committee, one of my priorities is to promote greater engagement with the devolved legislatures, and in particular corresponding committees, in areas of shared policy.

I am hoping to arrange a meeting with the Chairs and Conveners of key partner committees from the devolved legislatures to this end and would value your attendance if you are available. I have also written to the Chair of the Economy, Trade and Rural Affairs Committee regarding this. My Clerks will be in touch to coordinate diaries.

Yours sincerely,

Alistair

**Rt Hon Mr Alistair Carmichael MP**
**Chair, Environment, Food and Rural Affairs Committee**

House of Commons
Palace of Westminster
London
SW1A 0AA

**efracom@parliament.uk**
**+44 (0)20 7219 1119**
**Social: @CommonsEFRA**

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gw. Anrh. Mr Alistair Carmichael AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Tŷ'r Cyffredin

15 Tachwedd 2024

Annwyl Alistair,

**Ymgysylltu rhyngseneddol**

Diolch am eich llythyr a llongyfarchiadau ar gael eich ethol yn Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin. Byddwn yn falch o fod yn bresennol mewn cyfarfod gyda chi a'n cydweithwyr o Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon i edrych ar ein diddordebau cyffredin a'r ffyrdd y gall ein Pwyllgorau weithio gyda'i gilydd.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi yn y dyfodol.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Llyr Gruffydd AS yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

CC: Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Llŷr Gruffydd MS
Chair, Climate Change, Environment and Infrastructure Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
CF99 1SN

Senedd.Climate@senedd.wales

11th November 2024

Dear Llŷr,

Thank you for your letter dated 2nd October 2024 enclosing a copy of the Climate Change, Environment and Infrastructure Committee's report on the operation of the interim environmental protection measures.

I would like to thank the Committee for the work they have undertaken in this area and for inviting Anna Heslop, Lynda Warren and I to participate in the evidence session on 18th July 2024. We value the Committee's recommendations.

I note that, as in previous years, the report includes recommendations for both Welsh Government and the IEPAW. We continue to meet regularly with the Environmental Governance team in relation to the bill, in addition to Welsh Government policy teams on relevant areas of work.

Your recommendations for the IEPAW relate primarily to impact monitoring, the increasing number of submissions and how this affects capacity. Also, the transition from the interim arrangements to the new permanent governance body.

As I noted in my response to you last year, the IEPAW has already embarked on processes to improve our impact monitoring. Details of the outcome of processes already in place regarding the impact of our work on these submissions have been included in the IEPAW Annual Report 2023-2024.

As part of our Monitoring, Evaluating and Learning Framework, we are further developing formal processes for the ongoing monitoring of impact. This will be reported on in our Annual Report.


Evaluation of our work processes and resource utilisation also occurs at regular intervals. The Committee has requested that we produce a *Lessons Learned* report for the benefit of the new scrutiny body and to inform the transition. The IEPAW undertakes to complete this by the end of the current term.

We are grateful that the Committee recognises the constraints available resources place on our activity and progress. The appointment of two deputies has

considerably strengthened the capacity of the IEPAW. We are also keen to have permanent legal support added to our current secretariat function.

In closing, I would like to express my appreciation to the committee for their observations and recommendations.

Kindest Regards,



**Dr Nerys Llewelyn Jones**
**Interim Environmental Protection Assessor for Wales**

# Adroddiad ar weithrediad mesurau interim diogelu'r amgylchedd 2023-24.

## Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith (Hydref 2024)

Ym mis Hydref 2024, cyflwynodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ei adroddiad ar weithrediad mesurau ar gyfer diogelu'r amgylchedd. Sefydlodd Llywodraeth Cymru rôl Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd i Gymru yn 2021 i bontio'r bwlch rhwng diwedd cyfnod pontio Brexit a sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd i Gymru. Mae'r adroddiad yn cynnwys 9 o argymhellion. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

www.llyw.cymru

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ..... 3

**Ymateb i'r 9 argymhelliad** ..... 4

Argymhelliad 1 ..... 4
Argymhelliad 2 ..... 4
Argymhelliad 3 ..... 4
Argymhelliad 4 ..... 5
Argymhelliad 5 ..... 5
Argymhelliad 6 ..... 5
Argymhelliad 7 ..... 6
Argymhelliad 8 ..... 6
Argymhelliad 9 ..... 6

# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i ddatblygu a chryfhau cyfraith amgylcheddol Cymru. Yr amgylchedd yw'r sylfaen yr adeiladwyd ein cymdeithas a'n heconomi arni. Mae'n darparu aer glân i ni ei anadlu, dŵr glân i'w yfed, a thir ffrwythlon i dyfu bwyd. Mae hefyd yn cefnogi cyfoeth o fioamrywiaeth, sy'n hanfodol ar gyfer iechyd ein hecosystemau.

Bydd cyfraith amgylcheddol yn hanfodol wrth fynd i'r afael â heriau newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth, a niwed i'r amgylchedd fel llygredd.

Er nad oes gan Gymru gorff llywodraethiant amgylcheddol parhaol eto, penodwyd Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, y Dr Nerys Llewelyn Jones, ar 1 Mawrth 2021. Rôl yr Asesydd Interim yw ystyried materion mewn perthynas â gweithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru a chyflwyno adroddiadau ar faterion o'r fath i Weinidogion Cymru yn nodi ei hargymhellion. Mae'r Asesydd Interim hefyd yn rhoi trefn i aelodau'r cyhoedd godi pwyntiau ar weithrediad y gyfraith amgylcheddol yng Nghymru, ystyried dilysrwydd y pwyntiau ac os gwêl hynny'n briodol, gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru.

Crëwyd rôl yr Asesydd Interim i lenwi peth o'r bwlch llywodraethiant amgylcheddol a grëwyd pan wnaeth y DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae rhanddeiliaid wedi croesawu'r rôl honno. Mae'r Asesydd Interim yn ystyried ac yn adrodd ar weithrediad y gyfraith amgylcheddol ond nid oes ganddi'r pŵer i ymchwilio i dramgwyddau na chymryd camau i fynnu cydymffurfiaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi staff i roi cefnogaeth ysgrifenyddol i'r Asesydd Interim. Mae adnoddau'r Asesydd Interim wedi cynyddu yn sgil penodi dau Ddirprwy iddi ym mis Mai.  Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y Llywodraeth i Lywodraethu Amgylcheddol cadarn.

Mae'r Bil yn sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru, fel arwydd o'n hymrwymiad clir bod gweithredu ac arwain o ran yr argyfwng hinsawdd a natur yn parhau'n brif flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig am eu hadroddiad ar weithrediad mesurau ar gyfer diogelu'r amgylchedd ac am eu hargymhellion. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad isod.

# Ymateb i'r 9 argymhelliad

## Argymhelliad 1

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymgysylltu â'r Asesydd Interim i sicrhau bod gan ei swyddfa ddigon o adnoddau i ymdrin â'i llwyth gwaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau nad yw ei waith yn cael ei golli wrth i ffocws symud i'r corff newydd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Byddaf yn trafod yr argymhelliad hwn gyda'r Asesydd Interim yn ein cyfarfod rheolaidd nesaf. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr opsiynau ar gyfer cael adnoddau parhaol ychwanegol i wella'r arbenigedd yn nhîm yr Asesydd Interim. Yn ogystal, rydym dal wrthi'n llenwi lleoliadau ar gyfer myfyrwyr PhD ychwanegol.

Goblygiadau ariannol: Daw'r arian i dalu cost yr adnodd ychwanegol hwn o gyllideb bresennol yr Asesydd Interim. Cynyddwyd honno er mwyn darparu capasiti drafftio ychwanegol a chymorth arbenigol a chyfreithiol.

## Argymhelliad 2

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymgysylltu â'r Asesydd Interim i ystyried a ellir rhoi trefniadau staffio ar waith, gan gynnwys drwy secondiadau, i hwyluso'r broses o drosglwyddo profiad ac arbenigedd yn ystod y cyfnod pontio.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Byddaf yn trafod yr argymhelliad hwn gyda'r Asesydd Interim yn ein cyfarfod rheolaidd nesaf. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gwerthuso opsiynau ar gyfer newid o'r mesurau interim i gorff llywodraethu parhaol. I gefnogi'r broses hon, mae Swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod â'r Asesydd Interim ac yn cydweithio â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP), Environmental Standards Scotland (ESS), a'u cyd-swyddogion yn DEFRA a Llywodraeth yr Alban i gasglu gwybodaeth berthnasol.

Goblygiadau ariannol: Nid ydym wedi'u mesur eto. Caiff y costau eu pennu trwy Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil arfaethedig a thelir am unrhyw gostau ychwanegol drwy gyllidebau rhaglenni yn y dyfodol.

## Argymhelliad 3

Dylai swyddfa'r Asesydd Interim gynnwys yn ei adroddiad blynyddol nesaf fanylion am y gwaith y mae wedi'i wneud i fonitro ei berfformiad ac effaith ei waith.

Ymateb: Mater i'r Asesydd Interim yw hwn ond byddaf yn trafod yr argymhelliad hwn gyda hi yn ein cyfarfod rheolaidd nesaf.

## Argymhelliad 4

Dylai'r Asesydd Interim adolygu’r effaith bosibl o gynyddu cyflwyniadau’r cyhoedd ar gapasiti'r Asesydd, gyda'r bwriad o wneud yr achos dros gael adnoddau ychwanegol i reoli galw yn y dyfodol, os bydd angen.

Ymateb: Mater i'r Asesydd Interim yw hwn. Byddaf yn trafod yr argymhelliad hwn gyda'r Asesydd Interim yn ein cyfarfod rheolaidd nesaf. Yn ogystal, bydd yn cael ei fonitro yn ystod y cyfarfodydd deufisol rhwng y Dirprwy Gyfarwyddwr Tir, Natur a Choedwigaeth a'r Asesydd Interim fel rhan o'r broses reolaidd o fonitro perfformiad.

## Argymhelliad 5

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi amserlen glir a manwl ar gyfer sefydlu’r corff llywodraethu amgylcheddol newydd.

Ymateb:  Derbyn

Cadarnhaodd y Prif Weinidog fwriad y Llywodraeth i gyflwyno Bil i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru yn ei ddatganiad deddfwriaethol yn y Senedd ar 9 Gorffennaf 2024. Bydd amseriad sefydlu'r Corff yn dibynnu ar amseriad taith y Bil drwy'r Senedd.  Rydym wrthi'n paratoi'r cynlluniau manwl ar gyfer ei roi ar waith a chaiff mwy o fanylion y llinell amser gweithredu eu rhannu maes o law.

Goblygiadau ariannol: Nid ydym wedi'u mesur eto. Caiff y costau eu pennu trwy Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil arfaethedig a thelir unrhyw gostau ychwanegol drwy gyllidebau rhaglenni yn y dyfodol.

## Argymhelliad 6

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu camau penodol ar gyfer rheoli’r cyfnod o bontio o drefniadau interim i’r corff llywodraethu newydd, a rhoi eglurder ynghylch sut y cyflawnir hyn yn effeithiol heb gorff cysgodol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gwerthuso opsiynau ar gyfer newid o'r mesurau interim i gorff llywodraethu parhaol. Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y strategaethau a ddefnyddir gan ein cyfeillion yn DEFRA a Llywodraeth yr Alban wrth sefydlu Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) ac Environmental Standards Scotland (ESS). Mae'n bwysig nodi bod ein hamgylchiadau ni yn wahanol, gan i ni gychwyn mesurau interim yn 2021.

Byddaf yn parhau i drafod y pontio hwn yn fy nghyfarfodydd rheolaidd gyda'r Asesydd Interim a bydd fy swyddogion yn parhau â'u deialog reolaidd.

Goblygiadau ariannol: Ddim wedi'u mesur eto. Caiff y costau, ar ben rhai'r Asesydd Interim, eu pennu trwy Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil arfaethedig a thelir unrhyw gostau ychwanegol drwy gyllidebau rhaglenni yn y dyfodol.

## Argymhelliad 7

Dylai'r Asesydd Interim lunio a chyhoeddi adroddiad 'gwersi a ddysgwyd', yn seiliedig ar ei phrofiad o'r trefniadau interim, er mwyn llywio'r broses o drosglwyddo i gorff llywodraethu parhaol. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi ymateb i adroddiad yr Asesydd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mater i'r Asesydd Interim yw hwn.  Byddaf yn trafod yr argymhelliad hwn gyda'r Asesydd Interim yn ein cyfarfod rheolaidd nesaf. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystyried unrhyw adroddiad fel rhan o'r gwaith o gynllunio ar gyfer gweithredu'r corff llywodraethu parhaol ac yn cyhoeddi ymateb.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 8

Dylai'r Asesydd Interim sicrhau bod yr adroddiad blynyddol nesaf yn nodi manylion am sut y mae'n bwydo i mewn i'r gwaith o sefydlu'r corff newydd.

Ymateb: Mater i'r Asesydd Interim yw hwn. Byddaf yn trafod yr argymhelliad hwn gyda'r Asesydd Interim yn ein cyfarfod rheolaidd nesaf.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 9

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac Environmental Standards Scotland i lywio'r gwaith o ddatblygu a throsglwyddo'n ddidrafferth i'r trefniadau llywodraethu amgylcheddol parhaol yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod wrthi'n monitro datblygiadau yn Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) ac Environmental Standards Scotland (ESS). Mae swyddogion yn cydweithio â'r OEP, yr ESS a'n cyd-swyddogion yn DEFRA a Llywodraeth yr Alban i gasglu gwybodaeth berthnasol i sicrhau bod y cynllunio a'r pontio yn cael eu rheoli mor effeithiol â phosibl. Bydd y cydweithrediad hwnnw'n parhau.

Goblygiadau ariannol: Dim

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0328/24

Llŷr Gurffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

12 Tachwedd 2024

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu y cafodd Gorchymyn y Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2024 ei osod yn y Senedd ar 22 Hydref ac y disgwylir iddo ddod i rym ym mis Rhagfyr 2024, os cytunir arno. Er bod y newidiadau y mae'r Gorchymyn diwygio yn eu gwneud yn rhai bach, byddant yn helpu i ddiweddaru cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ac yn ei gryfhau i allu cyflawni ei nodau datgarboneiddio yng Nghymru a'r DU.

Yn benodol, mae'r Gorchymyn yn diwygio Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 fel a ganlyn:

- Cysoni deddfwriaeth sy'n darparu cap ar gyfer ETS y DU, ailbennu nifer y lwfansau y gellir eu rhoi am ddim i gyfranogwyr y mae risg iddynt ddadleoli carbon ("cap y diwydiant") a chreu cronfeydd wrth gefn o lwfansau y gellir eu defnyddio i esmwytho newidiadau annisgwyl o ran pris a nifer y lwfansau yn y farchnad (y "gronfa wrth gefn hyblyg"). Bydd y newidiadau hyn yn alinio ETS y DU ag uchelgeisiau sero net pedair gwlad y DU ac yn galluogi marchnad ETS y DU i weithredu'n effeithiol.

- Estyn Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2023 i Ogledd Iwerddon – i roi'r newidiadau i'r defnydd o lwfansau am ddim ar waith ym maes hedfan; dal, cludo a storio carbon; a chynhyrchwyr trydan.

- Ehangu cwmpas ETS y DU i gynnwys hediadau o Ogledd Iwerddon i'r Swistir fel bod ETS y DU unwaith eto'n cwmpasu 4 gwlad y DU ar ôl i Weithrediaeth a Chynulliad Gogledd Iwerddon ailymgynnull.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

- Ehangu cwmpas ETS y DU i gynnwys fentio carbon deuocsid ($CO_2$) o'r sector cynhyrchu olew a nwy i gryfhau potensial ETS y DU i ddatgarboneiddio.

- Cryfhau a chysoni mesurau i orfodi ETS y DU drwy gyflwyno cosbau sifil newydd a hysbysiad gorfodi, gan newid y cosbau presennol er mwyn cael mwy o gysondeb ar draws ETS y DU

Mae rhai o'r uchod yn ddeddfwriaeth "dal i fyny"; Cafodd diwygiadau oedd yn hanfodol ar unwaith i weithrediad ETS y DU eu gwneud fel deddfwriaeth Prydain Fawr yn unig gyda chytundeb Ysgrifennydd Parhaol Gogledd Iwerddon, yn ystod y cyfnod pan nad oedd Gweithrediaeth a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn gweithredu. Nawr eu bod unwaith eto yn gweithredu, gallwn estyn y newidiadau hyn i Ogledd Iwerddon. Cafodd newidiadau dros dro eu gwneud i Gap ETS y DU drwy Reoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2023, eto yn absenoldeb Cynulliad yng Ngogledd Iwerddon, ac maent bellach yn cael eu hymgorffori yn y ddeddfwriaeth ETS. Gofynnwyd i'n cynghorwyr statudol, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, am eu cyngor ar y cynigion o fewn y Gorchymyn.

Bydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn parhau i fod yn bolisi sy'n hynod bwysig i Gymru, gan roi arwydd i annog buddsoddi, gan gymell datgarboneiddio wrth hyrwyddo twf yr economi. Diolch i chi am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth i gryfhau ei allu i gyflawni'r nodau hyn.

Mae'r llythyr hwn hefyd wedi'i anfon at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Eitem 3.7

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

13 Tachwedd 2024

Annwyl Huw

Datganiad Ysgrifenedig: Comisiwn Annibynnol ac Adolygiad o'r Sector Dŵr

Yn ein cyfarfod ddydd Llun 4 Tachwedd 2024, fe wnaethom ni nodi eich datganiad ysgrifenedig ynghylch lansio Comisiwn Annibynnol ac Adolygiad o'r Sector Dŵr ar y cyd â Llywodraeth y DU. Mae'r mater hwn o ddiddordeb i ni o ystyried ein trafodaeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Dŵr (Mesurau Arbennig) Llywodraeth y DU a'n gwaith craffu ar gysylltiadau rhynglywodraethol.

Yn y datganiad, rydych chi'n cyfeirio at "agwedd newydd ein dwy lywodraeth o safbwynt cydweithio trawsffiniol ar fater sy'n effeithio ar bob un ohonom". Rydych hefyd yn nodi bod "dŵr yn bwnc cymhleth a hynod sensitif yn y setliad datganoli yng Nghymru, ***a bydd angen ei ystyried wrth ddatblygu trefniadau ar gyfer y dyfodol***" a bod argymhellion gan y Comisiwn a fydd "yn ***sail i ddeddfwriaeth bellach i ddenu buddsoddiad hirdymor*** a glanhau ein dyfroedd am byth". [Ein pwyslais ni].

Yn ogystal, rydych chi'n dweud "Mae gennym ***[ni]*** flaenoriaethau clir ar gyfer diwygio ac ***ymdeimlad a rennir*** o'r gwaith y bydd ei angen ar draws cyfundrefnau polisi a rheoleiddiol y ddwy wlad i wneud i'r newid hwn ddigwydd. Bydd angen ***consensws ar gyfer gweithredu***, ac mae hyn yn cynnwys atebion unigryw yng Nghymru ac yn Lloegr lle bo'u hangen i sicrhau sector a fframwaith dŵr gwydn sy'n ddiogel ac ***wedi'i ailosod*** a fydd yn gweithio yn y tymor hir." [Ein pwyslais ni].

Cyfeirir hefyd at "Bydd y gwaith hanfodol hwn yn ategu'r ystod eang o waith ar ansawdd dŵr sydd eisoes yn mynd rhagddo mewn meysydd eraill ac "ein cydweithrediad parhaus â'n cymheiriaid yn Lloegr ar y mater hanfodol hwn".



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Rydym yn rhagweld y gallai fod angen datrysiad deddfwriaethol sylfaenol i gyflawni rhai o argymhellion posibl y Comisiwn ac y bydd hyn yn debygol o godi yn ystod y Seithfed Senedd. O ystyried ei bod yn debygol y byddai Llywodraeth y DU yn cyflwyno Bil i weithredu argymhellion ar gyfer Lloegr sy'n deillio o waith y Comisiwn, mae rhai cwestiynau'n codi:

(i) Sut fydd Llywodraeth Cymru yn ymdrin â gwaith y Comisiwn ac yn gweithredu ei hargymhellion sy'n ymwneud â Chymru, ac a yw eich swyddogion yn gweithio ac yn paratoi ar y sail (yn ystod y Senedd hon) y bydd Bil yn cael ei gyflwyno yn y Seithfed Senedd?

(ii) Fel rhan o'r cydweithio trawsffiniol rydych chi'n cyfeirio ato yn eich datganiad ysgrifenedig, pa sylwadau ydych chi wedi'u gwneud i Lywodraeth y DU ynghylch datrysiadau deddfwriaethol yn y dyfodol i gyflawni argymhellion y Comisiwn? A ydych chi neu'ch swyddogion wedi trafod gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU ynghylch defnyddio Bil y DU i gyflawni'r argymhellion sy'n berthnasol i Gymru?

(iii) O ran eich cydweithrediad â'ch cymheiriaid yn Llywodraeth y DU, sut y gellid effeithio ar hyn pe bai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i'r Senedd, yn hytrach na bod Llywodraeth y DU yn deddfu dros Gymru?

(iv) Pa wybodaeth ydych chi wedi'i rhoi i'r Comisiwn am ddatrysiadau deddfwriaethol posibl yn y dyfodol a'r dull rydych chi'n ei ffafrio?

(v) Mae eich datganiad yn cyfeirio at "[g]ynrychiolydd penodol o'r sector yng Nghymru" ar y Comisiwn, a cheisio barn arbenigwyr Cymru i sicrhau bod safbwynt Cymru yn cael ei ystyried ar y lefel uchaf. Ar ba sail y bydd y cynrychiolwyr hyn yn rhoi mewnbwn i'r Comisiwn: ar sail Bil yn dod gerbron y Senedd neu ddatrysiad deddfwriaethol ar y cyd mewn Bil y DU?

Rwy'n edrych ymlaen at gael ymateb erbyn 28 Tachwedd 2024. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

Mike Hedges
Cadeirydd

Y Pwyllgor Deisebau
—
Petitions Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd

Anfonwyd copi at Gadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn y Senedd

15 Tachwedd 2024

Annwyl Ysgrifennydd Cabinet,

## Deiseb P-06-1474 – Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas; a Deiseb P-06-1447 – Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas

Cafodd y Pwyllgor Deisebau ei drafodaeth ddiweddaraf ar y deisebau uchod, a gyflwynwyd gan Gareth Jones a Kim Williams, yn ystod ei gyfarfod ar 4 Tachwedd. Roedd y drafodaeth hon yn dilyn dadl ar ddeiseb P-06-1474, a gasglodd dros 13,000 o lofnodion, yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Hydref.

Rydym yn ysgrifennu atoch er mwyn tynnu sylw at y deisebau hyn, a'r sylwadau pellach a gafwyd gan y deisebwyr yn dilyn y ddadl. Fel y gwyddoch, mae llawer o bobl yn pryderu ynghylch y posibilrwydd o gau'r canolfannau ymwelwyr yn dilyn cyhoeddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar 6 Tachwedd ynghylch canlyniad ei ymgynghoriad, sef 'Yr Achos dros Newid'.

Yn ystod y drafodaeth a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd, nododd yr Aelodau fod ansicrwydd o hyd ynghylch dyfodol y canolfannau, a bod y mater yn peri pryder i Aelodau ar draws y Siambr. Nododd yr Aelodau hefyd fod y deisebwyr yn dweud nad yw'r hyn y maent yn ei glywed ar lawr gwlad yn cyfateb i'r hyn sy'n cael ei ddweud yn gyhoeddus gan sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch ei fwriadau, ac ynghylch sut y bydd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn lleol ar ei gynlluniau i geisio dod o hyd i weithredwyr newydd ar gyfer y cyfleusterau yn y canolfannau ymwelwyr.

Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cyfleu cais y deisebydd, sef bod y sefydliad yn rhannu cofnodion ariannol y tair canolfan, eu cynlluniau rheoli ymwelwyr, ac asesiad effaith ar yr hyn y byddai cau'r canolfannau yn ei olygu o ran mynediad.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

At hynny, cytunodd yr Aelodau y byddwn i'n ysgrifennu atoch mewn perthynas â'r pryderon a godwyd gyda'r Pwyllgor gan y deisebwyr ynghylch yr hyn yr oeddent yn ei glywed ar lawr gwlad, gan gynnwys eu pryderon ynghylch y posibilrwydd o roi'r gorau i gadw'r canolfannau cyn i weithredwyr newydd gymryd drosodd.

Mae'r manylion llawn am drafodaethau'r Pwyllgor ar y deisebau hyn, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma:

P-06-1474 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas

P-05-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas

Ysgrifennodd Clare Pillman o sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru at y Pwyllgor ar 30 Medi, gan ddweud:

*"The outcome of the Case for Change will then be communicated to staff, and further information on impacted services will be shared with the public and stakeholders in due course. At that point, we will re-engage with local groups and potential partners about the next steps at each visitor centre site. These may be slightly different, as each site has bespoke needs that will need to be considered. We have already been approached by multiple community groups and private enterprises that are interested in operating the visitor centres, and we are planning further public meetings in mid-November. Information about those meetings will be shared in due course. It is very important to NRW that we do this responsibly and in the right way, and that we secure the future of the sites for maximum benefit in the long-term. It is a great opportunity to secure future investment in the sites, provide refreshed interest in the areas and promote the ongoing attractiveness of mid-Wales as a destination for visitors to Wales."*

Rydym bellach wedi cyrraedd canol mis Tachwedd, ac nid yw pryderon pobl am gamau gweithredu Cyfoeth Naturiol Cymru ar y mater hwn wedi'u lleddfu. Nid oes dim yr wyf wedi'i glywed ers trafodaeth ddiweddaraf y Pwyllgor ar y mater yn rhoi sicrwydd i mi am y sefyllfa.

Rwy'n sylweddoli na all Llywodraeth Cymru ymyrryd yn uniongyrchol yn y broses o ddod o hyd i weithredwyr newydd ar gyfer cyfleusterau yn y canolfannau ymwelwyr pwysig hyn. Fodd bynnag, rydych mewn sefyllfa i ddweud wrth Gyfoeth Naturiol Cymru am ymgysylltu'n rhagweithiol â chymunedau a sefydliadau i gyflymu'r broses, a hynny er mwyn sicrhau nad yw'r canolfannau hyn yn cau, a sicrhau bod y cynnig i ymwelwyr a defnyddwyr yn parhau. Mae'r canolfannau ymwelwyr yn adnodd pwysig ar gyfer twristiaeth, iechyd a llesiant, ac addysg.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon ymateb dros neges e-bost at y tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir



Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Clare Pillman, Prif Weithredwr
Syr David Henshaw, Cadeirydd

Cyfoeth Naturiol Cymru
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Caerdydd
CF10 3NQ

Anfonwyd copi at Gadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn y Senedd

15 Tachwedd 2024

Annwyl Clare a Syr David,

## Deiseb P-06-1474 – Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas; a Deiseb P-06-1447 – Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas

Fel y gwyddoch, trafododd y Pwyllgor Deisebau y deisebau uchod, a gyflwynwyd gan Gareth Jones a Kim Williams, yn ystod ei gyfarfod ar 4 Tachwedd. Roedd y drafodaeth hon yn dilyn dadl ar ddeiseb P-06-1474, a gasglodd dros 13,000 o lofnodion, yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Hydref.

Rydym yn ysgrifennu atoch er mwyn tynnu sylw at y deisebau hyn, a'r sylwadau pellach a gafwyd gan y deisebwyr yn dilyn y ddadl. Fel y gwyddoch, mae llawer o bobl yn pryderu ynghylch y posibilrwydd o gau'r canolfannau ymwelwyr yn dilyn cyhoeddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar 6 Tachwedd ynghylch canlyniad ei ymgynghoriad, sef yr 'Achos dros Newid'.

Yn ystod y drafodaeth a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd, nododd yr Aelodau fod ansicrwydd o hyd ynghylch dyfodol y canolfannau, a bod y mater yn peri pryder i Aelodau ar draws y Siambr. Nododd yr Aelodau hefyd fod y deisebwyr yn dweud nad yw'r hyn y maent yn ei glywed ar lawr gwlad yn cyfateb i'r hyn sy'n cael ei ddweud yn gyhoeddus gan sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch ei fwriadau, ac ynghylch sut y byddwch yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn lleol ar gynlluniau i geisio dod o hyd i weithredwyr newydd ar gyfer y cyfleusterau yn y canolfannau ymwelwyr.

Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu atoch er mwyn cyfleu cais y deisebydd, sef bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhannu cofnodion ariannol y tair canolfan, eu cynlluniau rheoli ymwelwyr, ac asesiad effaith ar yr hyn y byddai cau'r canolfannau yn ei olygu o ran mynediad.

At hynny, cytunodd yr Aelodau y byddwn i'n ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas â'r pryderon a godwyd gyda'r Pwyllgor gan y deisebwyr ynghylch yr hyn yr oeddent yn ei glywed ar lawr gwlad, gan gynnwys eu pryderon ynghylch y posibilrwydd o roi'r gorau i gadw'r canolfannau cyn i weithredwyr newydd gymryd drosodd.


Mae'r manylion llawn am drafodaethau'r Pwyllgor ar y deisebau hyn, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma:

P-06-1474 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas

P-05-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb dros neges e-bost at y tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir



Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon